# Astudiaeth Mapio Systemau Strategaeth Bwyd Cymunedol

## Ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Llywodraeth Cymru

Fersiwn 1/ Gorffennaf 2023

# Astudiaeth Mapio Systemau Strategaeth Bwyd Cymunedol

Jessica Mann, Nick Miller, Tom Bajjada a Merryn Tully / Miller Research (UK) Ltd.

Research Evaluation Consulting

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Jessica Mann
jessica@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

**Tabl cynnwys**


Crynodeb Gweithredol ... 1

1. Cyflwyniad/Cefndir ... 3

Sut mae'n gweithio ... 5

Ynglŷn â'r adroddiad hwn ... 5

Perthnasedd y gwaith ymchwil hwn ... 7

2. Methodoleg ... 14

Rhanddeiliaid Allweddol ... 14

Sefydliadau yr ymgysylltwyd â nhw ... 14

3. Diffinio Bwyd Cymunedol ... 17

Nodweddion strategaeth bwyd cymunedol lwyddiannus ... 18

4. Bwyd Cymunedol: Materion yn ymwneud â'r cyflenwad a'r galw ... 20

Rhwystrau rhag cynhyrchu bwyd cymunedol ... 20

Buddion cynhyrchu ... 23

Rhwystrau rhag bwyta bwyd cymunedol ... 24

Buddion bwyta bwyd cymunedol ... 26

Mentrau Bwyd Cymunedol ... 27

5. Adborth ar y Map Systemau Bwyd Cymunedol ... 29

Adborth Cychwynnol ... 29

Ymchwiliad thematig ... 32

Y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd ... 32

Diogeledd bwyd cenedlaethol ... 33

Anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac ansawdd deiet ... 34

Rôl y sector cyhoeddus ... 35

Rôl y sector preifat ... 36

Beth sydd ar goll o'r map? ... 37

6. Modelau Amgen o Fapio Systemau Bwyd Cymunedol ... 39

Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ... 39

Rhanddeiliaid yn y System Fwyd Gymunedol ... 41

Ymagwedd Cyflenwad a Galw ... 43

7. Cyfrifoldebau llywodraethu ac ysgogwyr newid ... 46

8. Y camau nesaf a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol ... 51

Atodiad A ... 56

Atodiad (FareShare) ........ 59

**Rhestr tablau**

Tabl 1: Rhestr o awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer newidiadau i'r map ...... 37

MILLER
Research Evaluation Consulting

**Rhestr termau**

Testun rhestr termau

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| BMJ | British Medical Journal |
| CFS | Strategaeth Bwyd Cymunedol |
| CPIH | Mynegai Prisiau Defnyddwyr – Tai |
| CSA | Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned |
| CWRE | Gyrfaoedd a Phrofiad sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| Ha | Hectarau |
| HFSS | Cynnwys Llawer o Fraster, Siwgr a Halen |
| ASau | Aelodau Seneddol |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| ONS | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| SFP | Lleoedd Bwyd Cynaliadwy |
| SFS | Cynllun Ffermio Cynaliadwy |
| UN | Y Cenhedloedd Unedig |
| WBFGA | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

# Crynodeb Gweithredol

i. Comisiynwyd Miller Research ym mis Chwefror 2023 i gynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â 'Map Systemau Bwyd Cymunedol' Llywodraeth Cymru, a ddyluniwyd i adlewyrchu dealltwriaeth gyfredol, gywir o'r sefyllfa Bwyd Cymunedol yng Nghymru.

ii. Roedd hyn yn golygu cynnal cyfres o bum gweithdy hydredol gyda 'grŵp arbenigwyr' enwol, ochr yn ochr â 9 gweithdy ychwanegol gyda grwpiau rhanddeiliaid ehangach. Ymgysylltwyd â chyfanswm o oddeutu 80 o randdeiliaid yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn.

iii. Rhoddodd y rhanddeiliaid adborth cymysg pan gyflwynwyd y map iddynt gyntaf.

iv. Gallai mwyafrif y rhanddeiliaid gydnabod faint o amser ac ymdrech a fuddsoddwyd yn yr ymarfer mapio. Roedd llawer yn gwerthfawrogi'r safbwynt cynhwysfawr yr oedd yn ei gynnig ac yn cydnabod bod mapio gweledol yn fodd effeithiol o ddeall systemau cymhleth. Yn y cyd-destun hwn, canmolodd rhanddeiliaid y ffaith bod y map yn cydnabod y berthynas ehangach rhwng bwyd a chymdeithas.

v. Ochr yn ochr â'u hadborth cadarnhaol, ar y cyfan, rhoddodd rhanddeiliaid feirniadaeth adeiladol hefyd, er mwyn ceisio gwella cywirdeb a chyflawnder y map. Er enghraifft, mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â chynrychiolaeth perthnasoedd neu 'ddolenni' adborth yn y Map.

vi. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried cyfraniad bwyd cymunedol at hyrwyddo bioamrywiaeth a lleihau allyriadau carbon. Yn benodol, roeddent yn pryderu ynglŷn â'r pwyslais dwys ar economeg ac amaethyddiaeth, gan gydnabod bod gan y ffactorau hyn rôl leiafsymiol yn y system fwyd gymunedol bresennol (heblaw am gyfrannu at fwyd dros ben).

vii. Canfu rhanddeiliaid raniad strwythurol sylweddol hefyd rhwng y 'gymuned' a gynrychiolwyd ar un ochr o'r map a dylanwad 'manwerthwyr mawr' ar yr ochr arall.

viii. Pwysleisiwyd cyfyngiadau ystyried y map yn adlewyrchiad cyfredol o'r system fwyd gymunedol hefyd.

ix. O ran amlygu 'ysgogwyr newid', cyfeiriwyd yn fynych at rôl Llywodraeth Cymru fel 'galluogwr' a hwylusydd newid.

x. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo grwpiau a phartneriaethau presennol i ychwanegu at eu gweithgareddau, ochr yn ochr â darparu rôl arweinyddiaeth, gan ddefnyddio ei dylanwad dros Awdurdodau Lleol i sbarduno camau gweithredu. Ystyriwyd bod cydlynu cymorth cyllidol ar gyfer bwyd cymunedol ar sail ganolog yn allweddol i lwyddiant.

xi. Amlygwyd pwysigrwydd integreiddio strategaethau bwyd yn natblygiad cynlluniau datblygu a llesiant lleol gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill.

xii. Ystyriwyd bod hyrwyddo'r agendâu iechyd ataliol a phresgripsiynu cymdeithasol yn allweddol hefyd, ac felly hefyd ailystyried y system gymorthdaliadau bresennol ar gyfer tyfu ar raddfa fach.

xiii. I gyflawni'r uchod yn effeithiol, mae'n bwysig bod ymagwedd drawslywodraethol i lywio datblygiad pellach y Strategaeth Gymunedol.

xiv. Yng ngoleuni'r ymarfer ymchwil hwn, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle bellach i gipio'r agenda bwyd cymunedol trwy ddangos arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol a chydlynol, sydd wedi gwrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid sy'n cyfrannu at astudiaethau fel yr un hon.

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Comisiynwyd Miller Research ym mis Chwefror 2023 i gynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â 'Map Systemau Bwyd Cymunedol' Llywodraeth Cymru, a ddyluniwyd i adlewyrchu dealltwriaeth gyfredol, gywir o'r sefyllfa Bwyd Cymunedol yng Nghymru. Datblygwyd y Map Systemau Strategaeth Bwyd Cymunedol (y map CFS) i gefnogi Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i sefydlu strategaeth bwyd cymunedol yng Nghymru.

*Amcanion y Gwaith Ymchwil*

1.2 Mae'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi rhoi cyfle i archwilio a phrofi canfyddiadau o'r map CFS gyda rhanddeiliaid ehangach sy'n gysylltiedig â'n system fwyd yng Nghymru. Roedd gan y gwaith ymchwil ddau brif nod:

- Casglu sylwadau rhanddeiliaid ynglŷn â'r map systemau o ran ei gyflawnder a'i gywirdeb, gan asesu p'un a yw'n cyflwyno'r materion sy'n gysylltiedig â bwyd cymunedol fel y maen nhw'n eu deall
- Casglu awgrymiadau rhanddeiliaid ynglŷn â datrysiad polisi posibl i fynd i'r afael â'r materion a ddangosir ar y map, ac annog rhanddeiliaid i 'gyd-ddylunio'r' datrysiadau hynny gyda Llywodraeth Cymru

1.3 Bwriadwyd i'r gweithgareddau hyn gael eu llywio gan nod trosfwaol i sefydlu llwybrau hyfyw ar gyfer gwneud mentrau bwyd cymunedol yn fwy llwyddiannus, a helpu i'w gwneud yn rhan fwy amlwg o'r system fwyd yng Nghymru.

*Cefndir i'r Map Systemau*

1.4 Mae mapio systemau wedi cael ei amlygu fel offeryn a ffefrir yn gynyddol gan lunwyr polisïau sy'n ceisio datrys 'problemau drwg'. O ran achosion defnydd perthnasol, defnyddiwyd yr ymagwedd yn fwyaf cyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu polisi

hinsawdd[1], gan ddefnyddio'r dull i gydweithio ar sero net. Ei nod pennaf yw arwain ymyriadau mewn systemau cymhleth, sy'n golygu ei fod yn ffordd briodol o archwilio bwyd cymunedol yng nghyd-destun y system fwyd ehangach.

1.5 Fodd bynnag, y tu hwnt i'r offeryn mapio systemau ei hun, mae'r syniad o 'Feddwl trwy Systemau' yn fwy cyffredinol wedi bod yn sail i ddatblygiad nifer o feysydd blaenoriaeth strategol - sy'n amlygu pwysigrwydd cydnabod rhyng-gysylltedd wrth archwilio newidiadau polisi. Efallai mai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r enghraifft amlycaf o hyn, gan ei bod wedi cymhwyso edefyn cyffredin cynaliadwyedd (cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd) fel mesur o atebolrwydd am ein cynnydd cymdeithasol yng Nghymru.

1.6 O safbwynt meddwl trwy systemau, gellid ystyried bod y materion sy'n wynebu ein system fwyd heddiw yn dod rhywle rhwng 'cymhleth' ac 'anhrefnus', gan eu bod yn ymgorffori nifer o ryngweithiadau rhwng gwahanol strwythurau a rhwydweithiau. Wrth weithredu ar y lefel gymhlethdod hon, fe all fod yn heriol iawn cyflawni unrhyw gonsensws ynglŷn â'r 'atebion iawn', er bod mapio systemau'n gallu ein helpu i ddeall canlyniadau ymyrryd yn fwy eglur. Gyda hyn mewn cof, gall cydgynhyrchu a chydweithio â rhanddeiliaid ddod yn fwy gwerthfawr.

1.7 Yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd a materion cysylltiedig (fel diogeledd bwyd), gall 'cymhleth' symud yn gyflymach tuag at 'anhrefnus'. Hynny yw, wrth i'r 'broblem' ddod yn fwy brys, daw ystyriaethau ynglŷn â phwy sy'n ymwneud â'r sgwrs a'r broses benderfynu yn bwysicach.

1.8 I greu'r map systemau cychwynnol, defnyddiodd Llywodraeth Cymru arbenigedd[2] academaidd i ddatblygu tystiolaeth sylfaenol, a ategwyd

[1] Tools for climate policy: 2) systems mapping - Policy Lab (blog.gov.uk)

[2] Bu Dr Caroline Verfuerth yn rhan o ddatblygu draft cyntaf y Map Systemau Bwyd Cymunedol fel rhan o'i Chymrodoriaeth gyda Llywodraeth Cymru a chymerodd rôl ymgynghorol drwy gydol y prosiect. Mae hi'n Gydymaith Ymchwil yn y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol (CAST) ym Mhrifysgol Caerdydd.

ac a ddatblygwyd ymhellach trwy sgyrsiau 1:1 â rhanddeiliaid mewnol ac allanol sy'n ymwneud â Bwyd Cymunedol. Cafodd ei gefnogi'n ehangach hefyd gan ganlyniadau arolygon defnyddwyr a rhanddeiliaid a gasglodd safbwyntiau cynnar ar ddatblygu'r CFS yn 2021/22.

**Sut mae'n gweithio**

1.9 Mae mapiau systemau effeithiol yn helpu i wella ein dealltwriaeth o'r perthnasoedd rhwng rhinweddau a nodweddion system. Gall y rhain gynnwys ei hasedau presennol a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. Mae'r map CFS cychwynnol wedi cael ei drefnu'n gyffredinol o amgylch 'elfennau' sy'n ymwneud â 'phobl', 'economeg', 'llywodraethu', 'asedau cymunedol', a 'thir'.

1.10 Bydd map systemau llwyddiannus yn helpu i wneud llwybrau ar gyfer ymyrryd trwy bolisi yn haws eu hadnabod, oherwydd fe ddylai ddod yn amlwg pa ffactorau y mae unrhyw newid penodol yn debygol o ddylanwadu arnynt.

1.11 Os bwriedir i'r map gael ei ddefnyddio fel offeryn proffesiynol i helpu i lunio polisi (fel sy'n wir yn yr achos hwn), daw ansawdd y wybodaeth sy'n cyfrannu ato'n ganolog i'w lwyddiant. Yn fyr, gall y map ond fod mor effeithiol â'r wybodaeth sy'n sail iddo, ac mae'n rhaid iddo gael ei strwythuro'n dda (cyflwyno llif rhesymegol) er mwyn helpu pobl i'w ddehongli'n gywir.

1.12 Pan fydd y broses mapio systemau'n frysiog neu heb ei phrofi, bydd mwy o berygl na fydd canlyniadau negyddol anfwriadol polisïau ac ymyriadau'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol. Mae'n rhaid i fap systemau da gyfleu perthnasoedd yn gywir er mwyn amlygu 'cylchoedd cythreulig' y mae angen tarfu arnynt – i greu newid.

**Ynglŷn â'r adroddiad hwn**

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r drafodaeth naratif o'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â mapio systemau. Cynhyrchodd yr ymarfer ymchwil argymhellion penodol ar gyfer ychwanegu elfennau newydd at y map i gynyddu ei gywirdeb wrth gynrychioli'r system fwyd gymunedol (adran 5, tabl 1), yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer

safbwyntiau a strwythurau amgen a allai ein helpu i ddeall y cyd-destun bwyd cymunedol yng Nghymru yn fwy effeithiol (adran 6).

1.14 Fodd bynnag, daeth llawer o lwyddiant fersiwn gychwynnol y map CFS o'i allu i ysgogi trafodaeth ac ymgysylltiad ar draws grwpiau rhanddeiliaid.

1.15 Er y dangosodd grwpiau ddulliau amrywiol o ddehongli sut y dylai'r map weithio, mae consensws rhyw 80 o randdeiliaid (gweler adran 2) o ran beth mae bwyd cymunedol yn ei olygu, beth all y CFS ei gyflawni, a beth yw'r blaenoriaethau craidd ar hyn o bryd, wedi bod yn eithaf rhyfeddol.

1.16 Am y rheswm hwn, mae'r adroddiad hwn wedi ceisio cofnodi'r drafodaeth gyfoethog a gafwyd drwy gydol yr ymarfer, gan roi naratif manylach ynglŷn â'r cyflenwad a'r galw am fwyd cymunedol, yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd, diogeledd bwyd, ac anghydraddoldebau iechyd.

1.17 O ran allbynnau, mae'r adroddiad llawn hwn yn ategu dogfen gryno (pdf) sy'n cyflwyno'r canfyddiadau allweddol, yn ogystal â fersiwn (ddyblyg) wedi'i golygu o'r map CFS cychwynnol, a fersiwn 'cyflenwad a galw' o'r map – mae'r rhain wrthi'n cael eu cwblhau'n derfynol ac maen nhw ar gael trwy'r platfform meddalwedd fapio 'Kumu'.

1.18 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 1 – Cyflwyniad/cefndir
- Adran 2 – Methodoleg
- Adran 3 – Diffinio Bwyd Cymunedol
- Adran 4- Bwyd Cymunedol, cyflenwad a galw
- Adran 5 – Adborth ar y map
- Adran 6 – Modelau amgen
- Adran 7 – Cyfrifoldebau llywodraethu ac ysgogwyr newid
- Adran 8 – Camau nesaf CFS

**Perthnasedd y gwaith ymchwil hwn**

1.19 Mae'r angen i gryfhau cynhyrchu bwyd yn lleol yn dilyn yr hyn sydd bellach wedi dod yn gyfnod sylweddol o ddirywiad tymor hir mewn diogeledd bwyd i filiynau o aelwydydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r adran fer hon yn amlinellu ystyriaethau cyd-destunol i helpu i ddeall natur yr adborth a gasglwyd trwy'r astudiaeth, ar yr adeg benodol hon.

1.20 Mae'r holl faterion a drafodir yma wedi cael eu hadleisio dwy gydol yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, wrth i fentrau bwyd cymunedol gael eu cysylltu'n annatod ag ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cynyddol yn y boblogaeth a lliniaru yn erbyn tlodi absoliwt.

*Tlodi bwyd*

1.21 Gellir olrhain trywydd tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd yn y Deyrnas Unedig ochr yn ochr ag effaith newid sylfaenol yn ymagwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig at bolisi lles. Yn dilyn argyfwng ariannol 2008, roedd y newid i gyni wedi dileu achubiaethau hollbwysig i lawer o'r bobl fwyaf agored i niwed – gan arwain at gynnydd 5,000 y cant[3] mewn darparu bwyd mewn argyfwng rhwng 2008 a 2018.

1.22 Daeth astudiaeth arwyddocaol gan Rachel Loopstra a gyhoeddwyd yn y BMJ i'r casgliad yn hyderus fod mwy o fanciau bwyd yn agor mewn ardaloedd sy'n dwyn baich toriadau lles a lle mae mwy o bobl yn profi sancsiynau budd-daliadau[4]. Mae'r cysylltiad rhwng mesurau cyni yn y Deyrnas Unedig a thlodi bwyd wedi cael ei gydnabod yn eang gan y BMJ, Gwyliadwriaeth Hawliau Dynol, a Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig[5] ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol.

---

[3] Emergency food bank parcels increased 5000% in 10 years, new report shows (inews.co.uk)
[4] Jackson T. Austerity and the rise of food banks *BMJ* 2015
[5] Poverty in the UK: a look at the latest United Nations and Human Rights Watch reports – Policy in Practice

1.23 Mae canlyniadau parhaus hyn, ynghyd â chyflogau disymud, biliau ynni sy'n codi, a chwyddiant, yn parhau i effeithio ar boblogaeth Cymru nawr, a chyrhaeddodd y galw am fwyd brys yng Nghymru record arall yn 2022. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod gweithgarwch dosbarthu Ymddiriedolaeth Trussell eisoes wedi cynyddu 85 y cant ers 2018 yn unig[6]. Mae ein gwaith ymchwil ledled De Cymru, ochr yn ochr ag adroddiadau cyn y pandemig gan Gynghrair Tlodi Bwyd De Cymru[7], a monitro parhaus gan y Sefydliad Bwyd, yn dangos mai dim ond 'crafu'r wyneb' yw ffigurau banciau bwyd mewn sawl ffordd wrth ymchwilio i'r mater. Nid yw gwaith hollbwysig darparwyr bwyd cymunedol wrth gynorthwyo aelwydydd sy'n profi diffyg diogeledd bwyd y tu hwnt i ddarpariaeth frys yn cael ei fonitro at ei gilydd, sy'n golygu bod gwir raddfa tlodi bwyd ymhell y tu hwnt i ffigurau adroddedig.

1.24 Yng nghanol y cefndir hwn, mae'n amlwg bod llunwyr polisïau yng Nghymru yn wynebu her enfawr wrth gefnogi bwyd cymunedol. Er nad oes gennym y pŵer i fynd i'r afael â'r materion strwythurol cymhleth sy'n sail i raddfa tlodi bwyd, mae ein cyd-destun presennol yn ein gorfodi i edrych yn fwy gonest ar ddiffygion ein system fwyd gyfunol.

*Chwyddiant prisiau bwyd*

1.25 Ar yr adeg ysgrifennu yn 2023, mae chwyddiant bwyd ar ei lefel uchaf erioed hefyd (19.1% - CPIH), a dyna sydd bellach yn cyfrannu fwyaf at chwyddiant cyffredinol[8]. Mewn termau real, mae dulliau fel olrheiniwr pris 'basged sylfaenol' y Sefydliad Bwyd yn adlewyrchu cynnydd 24-27% mewn prisiau ers mis Ebrill 2022. Mae adrodd ar gamau gweithredu archfarchnadoedd, fel lleihau prisiau eitemau hanfodol dethol, yn dangos nad yw hyn wedi cael 'unrhyw effaith sylweddol' eto ar gost siopa wythnosol.

[6] Cost of Living: Emergency food parcel demand at record high - BBC News
[7] SWFPA Food Poverty A Call to Action Feb 2019.pdf (sustainweb.org)

[8] Olrheiniwr Prisiau Bwyd: Mai 2023 | Y Sefydliad Bwyd

1.26 Mae'r cynnydd hwn yn arwain at ostyngiad amlwg mewn dewis deietegol i lawer o aelwydydd. Mae'r cyfuniad o gyllidebau aelwydydd sy'n lleihau ynghyd â phrisiau uwch yn golygu bod pobl yn paratoi bwyd yn y ficrodon i raddau mwy, mewn ymgais i ddefnyddio llai o ynni[9]. Gall y newidiadau hyn mewn ymddygiad defnyddwyr gael effeithiau dinistriol ar economïau lleol hefyd, wrth i aelwydydd gael eu gorfodi i wneud dewisiadau llai moesegol - gan gefnu ar gyflenwyr lleol fel y gellir rheoli cyllidebau'n fwy effeithiol. Hyd yn oed ar gyfer aelwydydd mwy 'cyfforddus', mae'r canlyniadau hyn yn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r economi leol trwy ddewisiadau i fwyta allan llai[10], gan roi mwy o straen ar y diwydiant lletygarwch.

1.27 Mae grwpiau defnyddwyr fel Which? wedi galw am weithredu ar frys i helpu i liniaru yn erbyn prisiau sy'n codi, fel cynyddu argaeledd dewisiadau 'hanfodol' (gan gynnwys mewn siopau llai) a mwy o hyrwyddiadau ar gyfer opsiynau bwyd iachus[11]. Heb weithredu ar unwaith, mae'r ffactorau cymhlethol hyn yn golygu bod perygl sylweddol o raniad hirfaith yn y boblogaeth, rhwng y rhai sydd â mynediad at ddeiet cytbwys, a'r rhai sy'n gorfod dibynnu'n bennaf ar fwydydd oes hir, wedi'u prosesu.

*Cylchoedd cythreulig ar gyfer iechyd y boblogaeth*

1.28 Yn y Deyrnas Unedig, mae cwestiynau pwysig ynglŷn â rôl a pherchnogaeth archfarchnadoedd a phrosesyddion bwyd yng nghanol ein system fwyd. Mae'r pedair prif archfarchnad a siopau gostyngiadau blaenllaw yn dominyddu'r farchnad fwydydd yn y Deyrnas Unedig, gyda Tesco yn unig yn dal 27 y cant o'r farchnad[12], tra bod gan y pum gweithgynhyrchwr bwyd mwyaf drosiant o £30bn ar y cyd bob blwyddyn ac mae'r sector bwyd cyflym yn cael ei ddominyddu gan gwmnïau o'r Unol Daleithiau gyda'u model bwyd

[9] Sunday roasts dwindle as cost of cooking crisis hits home | UK cost of living crisis | The Guardian
[10] https://www.hubbub.org.uk/Blog/the-cost-of-living-squeeze-is-changing-nations-eating-and-food-shopping-habits
[11] No point in food price measures without targeting small stores, Which? warns | UK cost of living crisis | The Guardian
[12] https://www.statista.com/statistics/280208/grocery-market-share-in-the-united-kingdom-uk/

cysylltiedig. Yn ôl adroddiad diweddar gan Brifysgol Rhydychen a ariannwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig[13]:

“Er bod system fwyd y Deyrnas Unedig yn cynnig buddion economaidd enfawr, mae’n wynebu nifer o heriau. Mae deietau sy’n cynnwys gormod o fraster, siwgr, a chig a dim digon o ffrwythau a llysiau yn cyfrannu at ordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig, yn enwedig mewn aelwydydd difreintiedig. Mae dulliau cynhyrchu anghynaliadwy’n sbarduno colli bioamrywiaeth, diraddio pridd, prinder dŵr a newid yn yr hinsawdd yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae amodau gwaith gwael yn parhau, yn enwedig ar gyfer llafur sgiliau isel yn y sector bwyd.”

1.29 Mae canlyniadau deietau gwael a diffyg maethiad ar lefel y boblogaeth yn ddifrifol ac efallai gellir eu deall yn fwyaf effeithiol wrth eu trosi’n gostau i’r GIG. Mae Cydffederasiwn y GIG wedi llunio detholiad o dueddiadau brawychus yn ymwneud â deiet ac iechyd cyhoeddus yng Nghymru[14], ac mae’r prif ganfyddiadau’n dangos bod cost gymdeithasol lawn gordewdra yng Nghymru oddeutu £3bn bob blwyddyn (Frontier Economics). Yn y cyfamser, amcangyfrifir bod diffyg maethiad yn costio £1.1bn i ni (ONS) tra rhagfynegir y bydd anghydraddoldebau iechyd yn costio £322 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru yn uniongyrchol (PHW).

1.30 Er y gwyddys bod gwir gost bwyta’n iach yn bwnc dadleuol, mae canfyddiadau’r Sefydliad Bwyd yn dangos bod bwyd maethlon iach bron teirgwaith yn ddrutach na chynhyrchion nad ydynt yn iach sy’n tueddu i achosi gordewdra, yn enwedig wrth edrych ar galorïau cyfwerth. Adroddir bod eitemau bwyd iachus yn gallu costio £8.51 fesul 1,000 o galorïau ar gyfartaledd, o gymharu â £3.25 yn unig fesul 1,000 o galorïau ar gyfer bwydydd llai iach[15]. At hynny, cofnodwyd bod pris bwydydd iachach wedi codi 5.1 y cant rhwng 2021 a 2022,

[13] https://www.eci.ox.ac.uk/research/food/downloads/Mapping-the-UK-food-system-digital.pdf

[14] 60 per cent of people in Wales say their health has worsened due to rising cost of living | Cydffederasiwn y GIG

[15] The Food Foundation report highlights impact of Britain's food policy disaster – Sefydliad Nuffield

sy'n rhwystr mynediad sylweddol i aelwydydd incwm isel. Yn y cyfamser, mae arbenigwyr wedi dweud bod dulliau llawer o fanwerthwyr mawr o frandio a marchnata bwyd yn annidwyll ac yn gamarweiniol[16], gan danseilio ein gallu cyfunol i wneud dewisiadau bwyd iach a gwybodus.

1.31 I gyflawni cynnwys calorïau (swm yn hytrach nag ansawdd), mae arbenigwyr maeth wedi arsylwi bod cyfran y calorïau y mae plant hŷn (11+) ac oedolion yn eu cael o fwydydd wedi'u prosesu'n ormodol wedi cyrraedd y ffigur rhyfeddol o 56 y cant bellach[17]. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus a maeth yn parhau i rybuddio bod maeth annigonol am gyfnod hir yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau iechyd, gan gynnwys pydredd dannedd plant, twf, pwysau, disgwyliad oes y boblogaeth, a thorri aelodau o'r corff i ffwrdd yn gysylltiedig â diabetes (ONS, GIG Digidol)[18].

1.32 Mae'r cyd-destun economaidd (a amlinellir uchod) yn cyflwyno heriau sylweddol i aelwydydd sy'n ceisio deiet mwy cynaliadwy. Er bod yr Arolwg Adnoddau Teuluol (ar draws y Deyrnas Unedig gyfan) yn dod i'r casgliad y byddai angen i'r bumed ran fwyaf difreintiedig o'r boblogaeth wario 50 y cant o'u hincwm gwario ar fwyd i dalu am gost deiet iachus argymelledig y Llywodraeth[19], mae Sefydliad Bevan yn amlygu nad oes gan 45 y cant o aelwydydd yng Nghymru fyth digon o arian ar gyfer unrhyw beth heblaw am yr hanfodion[20].

1.33 Mae'r ffactorau hyn yn golygu ei bod yn gynyddol debygol na fydd newidiadau i ddeiet a maeth ac, yn eu tro, canlyniadau iechyd cyhoeddus, yn digwydd heb ymyriadau wedi'u targedu o fewn ein system fwyd.

[16] The Broken Plate 2023 | Y Sefydliad Bwyd
[17] Madruga, M., Martínez Steele, E. et al. (2022). Trends in food consumption according to the degree of food processing among the UK population over 11 years. British Journal of Nutrition.

[18] Adroddiad chwarterol 2022-23 yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol (NDA) ar gyfer Lloegr, Bwrdd Gofal Integredig (ICB), Rhwydwaith Gofal Sylfaenol (PCN) a meddygaeth deulu - NDRS (digital.nhs.uk)
[19] FoodDB, Prifysgol Rhydychen; Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain dadansoddiad eilaidd o'r Arolwg Adnoddau Teuluol 2021-22
[20] A snapshot of poverty in Summer 2022 – Sefydliad Bevan

*Y cyd-destun cynhyrchu bwyd*

1.34 Er bod y dystiolaeth a gyflwynir yma'n amlinellu angen clir am gynnyrch bwyd ffres hygyrch a fforddiadwy, nid yw'r sector garddwriaeth wedi cael cymorth pendant ar lefel y Deyrnas Unedig. Eleni, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lleihau ei hymrwymiad i strategaeth arddwriaethol yn rhan o'i strategaeth fwyd gyffredinol – er gwaethaf ei bwriad datganedig i gefnogi system fwyd iachach a mwy cynaliadwy sy'n 'fforddiadwy i bawb'. Mae'r strategaeth wedi cael ei beirniadu gan lawer am ddangos diffyg uchelgais i gyflawni newid trawsffurfiol[21] ac mae sefydliadau fel Sustain wedi galw'r penderfyniad yn dro pedol 'siomedig'.

1.35 Felly, mae'r strategaeth bwyd cymunedol ar gyfer Cymru yn cyflwyno cyfle unigryw lle mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i gryfhau ei hymrwymiad i arddwriaeth ar raddfa fach. Gan fod sawl astudiaeth nodedig wedi profi dichonoldeb tyddynnod ecolegol[22], mae'n amlwg bod defnyddio ein mannau gwyrdd ar gyfer ffermio adfywiol (yn hytrach nag echdynnol) yn gallu cynnig lliaws o fuddion i'r economi a'r gymuned leol[23].

*Pryder ynglŷn â'r hinsawdd*

1.36 Er gwaethaf y cyfyngiadau sylweddol ar ddewisiadau defnyddwyr a drafodir drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r un mor bwysig amlygu bod risg gymhlethol y newid yn yr hinsawdd hefyd wedi gwneud dinasyddion yn fwy parod i gydnabod rôl bwyd lleol a lleihau'r ddibyniaeth ar fewnforion.

1.37 Mae arolygon barn diweddar yn dangos bod mwy na dwy ran o dair o'r cyhoedd ym Mhrydain yn pryderu am y newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau (67 y cant) a bod 55 y cant yn dweud y byddent yn fodlon bwyta bwyd sydd wedi cael ei gynhyrchu yn y Deyrnas Unedig yn

[21] Doherty, B., Jackson, P., Poppy, G.M. *et al.* UK government food strategy lacks ambition to achieve transformative food system change. *Nat Food* **3**, 481–482 (2022).
[22] Cynllun Busnes 2017-2020 brandio newydd (ecologicalland.coop)
[23] MergedFile (landworkersalliance.org.uk)

unig[24]. Er bod rhaid i ni fod yn ofalus ynglŷn â chyffredinoli hyn yn rhy eang, mae'n cefnogi tuedd gyffredinol sy'n ystyried mai lleoleiddio'r bwyd a fwyteir yw un o'r camau unigol mwy cyflawnadwy y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, er bod hyn yn awgrymu aberth unigol o ran dewis.

*Cyfleoedd*

1.38 Mae'r sylwadau hyn ar dystiolaeth ddiweddar yn rhoi cyd-destun pwysig i'r hinsawdd y cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn ynddi, gan dynnu sylw at y prif faterion y gallai'r strategaeth bwyd cymunedol geisio mynd i'r afael â nhw. Mae natur systemig, ryng-gysylltiedig y materion dan sylw hefyd yn dwysáu'r angen i'r map systemau sy'n cefnogi'r strategaeth ddarparu eglurder, o fewn cyd-destun sy'n rhyfeddol o gymhleth.

1.39 I fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r map systemau ddangos llwybr ar gyfer manteisio ar asedau'r system fwyd gymunedol yng Nghymru (y cyfoeth o fentrau cymunedol a gwirfoddolwyr sy'n sail iddynt), ar yr un pryd â chydnabod y diffygion presennol o ran natur ei chyflenwad.

1.40 Ar hyn o bryd, nid yw'r hyn a ddeallwn fel ein system fwyd gymunedol yn gynaliadwy oherwydd ni chafodd ei dylunio i fod felly. Mae tyfu bwyd cymunedol wedi gweithredu ar ymylon y system fwyd ddiwydiannol mewn cymunedau hen sefydledig i raddau helaeth, tra bod darparu bwyd cymunedol wedi datblygu mewn ffordd ymatebol o ganlyniad i argyfwng a thlodi bwyd. Fodd bynnag, mae cyfle gwirioneddol i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd a lles bwyd trwy fentrau bwyd cymunedol[25].

1.41 Mae'n rhaid i feddwl trwy systemau ysgogi ymagwedd fwy strategol er mwyn pontio'r bwlch rhwng mentrau bwyd cymunedol sy'n gallu tyfu cynnyrch, a'r rhai sydd wedi'u cyfyngu i hwyluso caffael a dosbarthu.

---

[24] Most people are worried about climate change – but what are they willing to do about it? | YouGov

[25] Verfuerth, C., Bellamy, A. S., Adlerova, B., & Dutton, A. (2023). Building relationships back into the food system: Addressing food insecurity and food well-being. *Frontiers in Sustainable Food Systems*, 7. doi: 10.3389/fsufs.2023.1218299.

## 2. Methodoleg

2.1 Cyn dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid, roedd angen dadansoddi ac adolygu'r map yn fewnol er mwyn amlygu unrhyw feysydd y gallai fod angen eu hegluro. Arweiniodd hyn at wneud nifer fach o newidiadau ac ychwanegu rhai ffactorau allweddol fel 'Newid yn yr Hinsawdd'. Penderfynwyd hefyd osod y 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' fel canolbwynt yn y map, gan fod hyn yn caniatáu cydberthynas glir rhwng polisi a ffactorau cyfredol o fewn y system fwyd.

2.2 Ar ôl profi'r map yn fewnol, cynhaliwyd yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfres o weithdai rhithwir o fis Ebrill 2023, gyda'r drafodaeth derfynol yn parhau tan 27 Mehefin – i gael safbwyntiau'r rhai nad oeddent wedi'u cynrychioli digon yn yr ymchwil. Roedd y gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol fel a ganlyn:

- Gweithdai grŵp arbenigol hydredol (x5)
- Gweithdai grŵp rhanddeiliaid ehangach (x9)
- Nifer gyffredinol y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw (tua 80)

**Rhanddeiliaid Allweddol**

- Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – grŵp annibynnol ar gyfer swyddogion SFP ledled Cymru
- Rhanddeiliaid Bwyd y Trydydd Sector (yr ymgysylltiad cryfaf)
- Rhanddeiliaid Amgylcheddol
- Gwirfoddolwyr a Gweithredwyr Bwyd
- Caffael Sector Cyhoeddus
- Rhanddeiliaid Sector Preifat (yr ymgysylltiad gwannaf)
- Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru

**Sefydliadau yr ymgysylltwyd â nhw**

- Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Synnwyr Bwyd Cymru
- Byrddau Iechyd (amrywiol)

- Banciau bwyd (amrywiol)
- Prifysgol Bangor
- Menter Môn
- Bwyd Bendigedig Wrecsam
- United Response
- Cynghrair Gweithwyr y Tir
- Partneriaeth Fwyd Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gâr
- Ein Bwyd 1200
- PATCH
- Planed
- WWF Cymru
- Rhwydwaith Bwyd Agored
- FareShare
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
- Can Cook/Well Fed
- Trefnu Cymunedol Cymru (Gogledd Cymru)
- Cymdeithas y Pridd
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Tŷ Krishna Cymru
- Gerddi Trefol Enaid Gwyrdd
- Tyfu Caerdydd

*Cam Un*

2.3 O ganlyniad i natur gymhleth a lefel uchel y map, gwahoddwyd y grŵp arbenigol o randdeiliaid i bum gweithdy gwahanol a rannwyd fesul thema. Rhoddodd hyn amser i'r rhanddeiliaid ddeall y map ymhellach a chynnig myfyrdodau ystyrlon ar y materion a'r themâu allweddol a godwyd ynddo.

*Cam Dau*

2.4 Cynhaliwyd cam nesaf profi'r map gyda grŵp ehangach o randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau seiliedig ar fwyd fel banciau bwyd, grwpiau amgylcheddol,

cynhyrchwyr a thyfwyr bwyd, unigolion sy'n gweithio o fewn polisi a gwirfoddolwyr. Diben y gweithdai hyn oedd casglu adborth ac ymatebion gan y rhai sy'n 'gweithio ar y rheng flaen' a sicrhau bod ystod o leisiau'n cael cyfle i wneud sylwadau a myfyrio ar y map. Rhannwyd y gweithdai rhanddeiliaid ehangach hyn yn ôl sector yn hytrach na thema, a ganiataodd drafodaethau manwl â phwyslais gwahanol.

2.5 Roedd angen ystyried hygyrchedd y map a chydnabod pwy oedd y gynulleidfa darged. Roedd gan yr holl randdeiliaid lefelau gwybodaeth amrywiol i ymgysylltu â'r map, a arweiniodd at drafodaethau â phwyslais gwahanol ym mhob gweithdy.

2.6 Er bod y rhanddeiliaid yn awyddus i ymwneud â gwaith maes yn gyffredinol, roedd diffyg diddordeb gan y rhai hynny a oedd yn gweithio yn y sector preifat ac Undebau Ffermwyr. Gwnaed sawl ymgais i recriwtio, ond roedd yn ymddangos bod lefel o ddifaterwch ynglŷn ag ymgysylltu â'r map.

2.7 Archwilir canfyddiadau ac arsylwadau'r grwpiau rhanddeiliaid arbenigol ac ehangach ymhellach yn adrannau 4 a 5.

# 3. Diffinio Bwyd Cymunedol

3.1 Cyn cychwyn trafodaethau ynglŷn â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ymwneud â bwyd cymunedol, mae'n bwysig cael diffiniad a dealltwriaeth a rennir o beth yn union a olygir gan y term 'bwyd cymunedol'. Mae hyn yn helpu i egluro ar ba raddfa y mae'n bodoli, pa weithredwyr sy'n rhyngweithio â bwyd cymunedol, yn ogystal â mentrau perthnasol. Mae hefyd yn codi cwestiwn ynglŷn â pha ffactorau allanol sy'n cael effaith sylweddol ar fwyd cymunedol.

3.2 Felly, yn rhan o'n hymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, gofynnom i amryw grwpiau ddiffinio eu dealltwriaeth o'r term bwyd cymunedol. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu canfyddiadau'r trafodaethau hynny.

3.3 Y diffiniad symlaf o fwyd cymunedol, a'r un a gynigiwyd amlaf gan ystod o randdeiliaid, oedd 'bwyd a gynhyrchir ar gyfer y gymuned, gan y gymuned'. Mae hyn yn atgyfnerthu ei natur cyflenwad a galw a archwilir ymhellach mewn adrannau dilynol.

3.4 Ystyriwyd bod angen i gynhyrchu bwyd yn y gymuned gyfrannu at system fwyd gyfiawn, gysylltiedig a ffyniannus. Ystyriwyd bod bodolaeth cynnyrch organig, lleol a thymhorol yn allweddol i ffurfio perthnasoedd rhwng defnyddwyr, cynnyrch a'r tir.

3.5 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at bwysigrwydd cydnabod elfen 'ddynol' bwyd cymunedol. Yn benodol, ei swyddogaeth i wasanaethu anghenion y gymuned, gydag elfen 'casglu a rhannu' yn gysylltiedig â'i ddosbarthu.

3.6 Pwysleisiwyd ei fodolaeth fel model nad yw'n camfanteisio, lle mae pobl wedi'u cysylltu'n annatod â'r amgylchedd naturiol, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn credu na ddylai bwyd cymunedol fod yn echdynnol, yn economaidd, gan ailfuddsoddi unrhyw elw yn ôl i brosiectau a mentrau cymunedol. Dylid gosod 'pris teg' ar ei gyfer, gyda milltiroedd bwyd isel.

3.7 Y tu hwnt i'r ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol hyn, honnodd rhanddeiliaid fod gan Fwyd Cymunedol swyddogaeth gymdeithasol

hefyd. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â materion fel tlodi a diffyg diogeledd bwyd trwy gynyddu mynediad at fwyd lleol. At hynny, ystyriwyd bod bwyd a gynhyrchir yn y gymuned yn cynnwys llawer o faethynnau ac felly'n cyfrannu at yr agenda iechyd ataliol.

**Nodweddion strategaeth bwyd cymunedol lwyddiannus**

3.8 Gan ychwanegu at y diffiniadau a ddarparwyd, rhoddodd rhanddeiliaid sylwadau eraill hefyd ar y gwerthoedd a'r nodweddion y dylai CFS allu eu cynnig. Mae'r ddealltwriaeth a rennir a'r gefnogaeth gyfunol i awgrymiadau yma'n rhoi hyder y gellir ystyried y CFS fel gweledigaeth a rennir mewn sawl ffordd.

3.9 Cyflwynir sylwadau a wnaed droeon isod, er mwyn helpu llunwyr polisïau i ddeall beth y dylai ymyriadau wedi'u targedu yn y system fwyd ei gyflawni:

- Rhannu bwyd dros ben a chreu digonedd – er ei bod yn bwysig bod bwyd dros ben yn cael ei rannu ar hyn o bryd, yn y tymor hir dylem fod yn ceisio osgoi'r potensial ar gyfer gwastraff a sicrhau bod mynediad at fwyd yn decach yn lle hynny
- Sicrhau bod gan bawb fynediad at dir ar gyfer tyfu – dylai pawb allu tyfu i ryw raddau, hyd yn oed mewn trefniant a rennir/grŵp
- Dylai cymunedau gael eu cysylltu'n well â'u ffermydd lleol – dylai pobl wybod o ble mae eu bwyd yn dod, a chael y cyfle i helpu i dyfu yn ogystal â rhannu gwybodaeth
- Sicrhau bod gwahanol sectorau'n cydweithio mewn partneriaeth – gan fod system fwyd gynaliadwy'n angen cyffredin sy'n berthnasol i bawb, fe ddylai gael ei hystyried yn nod trosfwaol i ni i gyd
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol arwain trwy esiampl trwy gaffael bwyd yn gyfrifol (a rhoi gwybod am gynnydd yn y maes hwn)
- Dylai CFS gefnogi'r nod ehangach o weithio tuag at Gyfiawnder Bwyd, gan gryfhau ein statws Masnach Deg yng Nghymru
- Dylai ddarparu a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol trwy gymdeithasu o amgylch gweithgareddau sy'n gysylltiedig â

bwyd (tyfu, coginio, gwirfoddoli mewn prydau cymunedol a chymryd rhan ynddynt)

- Mae’n rhaid iddi gyd-fynd â’r WFGA er mwyn sicrhau bod y pwyslais yn ymestyn y tu hwnt i gynhyrchu bwyd – fel y gellir cyflawni buddion lles a chymdeithasol ehangach hefyd
- Mae’n rhaid iddi flaenoriaethu iechyd pridd a’r tir ar draul elw – mae’n rhaid iddi hefyd osgoi gweld bwyd fel nwydd ac, yn lle hynny, ei weld fel sylfaen i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol
- Mae’n rhaid i’r sector cyhoeddus ddarparu ‘llwybr i mewn’ i Fwyd Cymunedol, nid yn unig trwy gaffael, ond hefyd trwy ddefnyddio tir cyhoeddus (mewn ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai) yn fwriadol ar gyfer tyfu
- At hynny, fe ddylai fod yn gyfannol a chael ei hystyried yn ‘arferol’ – i’r graddau bod datblygiadau tai a thirfeddianwyr preifat yn fodlon cyfrannu at ddyheadau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach Bwyd Cymunedol, a disgwylir iddynt wneud hynny

3.10 Mae trafod y meini prawf uchod, y gellid eu defnyddio i fesur CFS llwyddiannus, wedi bod yn alluogwr pwysig wrth annog rhanddeiliaid i ystyried beth y dylid ei gynnwys ym mharamedrau’r map systemau. Roedd hyn wedi ysgogi’r rhan fwyaf i fyfyrio ynglŷn â’r map ar ei ffurf ‘gyfredol’ (sy’n adlewyrchu ein realiti presennol) – trafodir hyn ymhellach yn adran 5.

3.11 Dylid nodi bod yr ystyriaethau ehangach hyn, y tu hwnt i fuddion uniongyrchol cynyddu gwerthiannau ‘bwyd lleol’, wedi codi ymhlith y rhanddeiliaid yn ddigymell, sy’n dangos faint o ddiddordeb sydd gan yr holl grwpiau rhanddeiliaid mewn buddion amgylcheddol, cymdeithasol, a chymunedol.

# 4. Bwyd Cymunedol: Materion yn ymwneud â'r cyflenwad a'r galw

4.1 Ar hyd ein gweithdai Grŵp Arbenigol, cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddatgysylltiad arwyddocaol rhwng y cyflenwad Bwyd Cymunedol a'r galw amdano. Nid yw darparu bwyd cymunedol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn broses linol. Mae hyn yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd diffiniadau sy'n ystyried rôl CFS i gefnogi bwyd ar gyfer y gymuned, a gynhyrchwyd gan y gymuned. Er mwyn adnabod y pwyntiau ysgogi ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth bwyd cymunedol o ddifrif, mae'n bwysig bod y map systemau CFS yn gallu adlewyrchu'n gywir o ble mae Bwyd Cymunedol yn dod, a beth sy'n ei atal rhag ehangu.

4.2 Er mwyn rhoi mwy o fanylion, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid ystyried rhai o'r prif rwystrau a heriau sy'n gysylltiedig â datblygu'r cyflenwad bwyd cymunedol yng Nghymru, a'r galw amdano.

**Rhwystrau rhag cynhyrchu bwyd cymunedol**

*Mynediad at dir*

4.3 Materion yn ymwneud â mynediad at dir oedd y prif heriau a oedd yn wynebu darpar dyfwyr, o bosibl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cost tir ar gyfer tyfu. Yn nodweddiadol, mae ar dyfwyr angen lleiniau bach o dir hyd at 2ha ac felly mae'n rhaid iddynt gystadlu ag amrywiaeth o ddefnyddiau amwynder fel estyniadau i erddi neu ddefnydd gan geffylau, sy'n codi'r pris yn sylweddol uwch na chyfraddau amaethyddol. Mae pocedi bach o dir dan bwysau ar gyfer defnyddiau amgen fel tai neu gynlluniau plannu coed.
- Cynyddu atynioldeb ffermydd bach at ddefnydd preswyl. Gall tyfwyr sy'n dymuno prynu ffermydd bach fod dan anfantais oherwydd bod gwerth y ffermdy'n cynyddu pris y daliad cyffredinol i lefelau anhyfyw.
- Anawsterau prydlesu. Dywedir bod tirfeddianwyr yn amharod i ryddhau lleiniau bach o dir amaethyddol ar gyfer garddwriaeth, yn

rhannol am resymau ymarferol fel goblygiadau cyfreithiol, cynllunio a threth, ond hefyd oherwydd ofn diwylliannol y bydd tyfwyr yn achosi problemau gyda chymdogion neu'n gwneud i safleoedd edrych yn anniben. Cyfeiriodd tyfwyr at yr angen am brydlesau hir i gyfiawnhau buddsoddi mewn seilwaith a ffrwythlondeb pridd, a bod hyn yn broblem i lawer o dirfeddianwyr. Fodd bynnag, teimlai un rhanddeiliad fod rhai ystadau mwy o faint yn dechrau ystyried ceisiadau am leiniau bach o dir garddwriaethol yn ffafriol ac awgrymodd hefyd fod niferoedd sylweddol o erddi muriog yng Nghymru y gellid eu defnyddio'n effeithiol.

- Materion cynllunio. Adroddodd tyfwyr am anawsterau helaeth wrth sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer seilwaith busnes fferm neu lety dros dro. Mae angen i ffermwyr brydlesu neu berchen ar 5ha o dir er mwyn bod yn gymwys am hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeiladau ac estyniadau, a phrin yw'r daliadau garddwriaethol sydd ar y raddfa hon. Roedd yr heriau a wynebwyd wrth gael caniatâd cynllunio yn cynnwys gorfod aros yn hir i geisiadau gael eu prosesu, gelyniaeth gan swyddogion cynllunio lleol a chost apeliadau. Roedd rhai ymgyngoreion wedi ceisio defnyddio deddfwriaeth Datblygiad Un Blaned i sicrhau caniatâd cynllunio, ond wedi canfod bod hyn yn fiwrocrataidd a chymhleth iawn i'r pwynt o roi'r ffidil yn y to.
- Ar lefel gymunedol, adroddwyd bod prinder rhandiroedd yn broblem, a bod rhestrau aros o sawl blwyddyn mewn rhai ardaloedd.

*Cymorthdaliadau Ffermydd*

4.4 Er eu bod yn ymwybodol o newidiadau sydd ar ddod i systemau cymorth ffermio o blaid ariannu nwyddau cyhoeddus, cyfeiriodd rhanddeiliaid yn fynych at y gwahaniaeth rhwng y cymhorthdal a ddarperir i ffermwyr da byw a thir âr ac absenoldeb cymorth ar gyfer garddwriaeth ar raddfa fach. Teimlai llawer fod hyn yn creu ystumiad yn y farchnad a'i fod yn her ychwanegol i dyfwyr yr oedd angen iddynt fuddsoddi mewn adeiladau ac offer. Mater penodol oedd yr angen

arfaethedig i ddaliad gynnwys tri hectar o leiaf i fod yn gymwys ar gyfer cymorth, pan fo sefydliadau tyfu'n adrodd bod daliad o lai nag un hectar yn gyffredin ac yn dwyn elw mewn garddwriaeth adfywiol.

4.5 Gall diffyg cymorthdaliadau hefyd ei gwneud yn fwy anodd i dyfwyr ar raddfa fach osod prisiau sy'n gallu cystadlu â bwyd a dyfwyd o dan system gymorthdaledig.

*Agweddau at gynhyrchu organig*

4.6 Awgrymwyd nad yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu digon â chynhyrchu organig, er gwaethaf ei werth uwch yn sgil darparu datrysiadau hinsawdd a gwelliannau bioamrywiaeth.

4.7 Mae cynhyrchwyr garddwriaethol bach yn talu ffïoedd ardystio organig tebyg i fferm fach, sy'n faich ariannol ychwanegol ar y sector. Awgrymwyd nad yw'r SFS yn cwmpasu taliad cynhaliaeth organig, hyd yn oed ar gyfer y rhai hynny sy'n gymwys i gael cymorth.

4.8 Dywedwyd bod gan dirfeddianwyr mwy o faint agweddau cymysg tuag at ffermio organig, oherwydd canfuwyd ei bod yn fwy anodd cynnal maint yr elw mewn system organig. Teimlwyd bod hyn yn gwneud tirfeddianwyr yn amharod i groesawu'r syniad o denantiaid yn trawsnewid tir i fod yn organig ar gyfer tyfu.

*Cydweithredu*

4.9 Cydnabu tyfwyr fod angen cymysgedd o gynhyrchu ar raddfa fach ac ar raddfa cae i addasu graddfa'r cyflenwad bwyd cymunedol. Felly, bydd angen i dyfwyr a ffermwyr gydweithredu'n well er mwyn sicrhau cyflenwad o gnydau fel cennin a thatws. Mae hyn yn gyfle posibl ar gyfer cymorth o dan elfen ffermio gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

*Sgiliau a llafur*

4.10 Ar hyn o bryd, dywedir bod galw mawr am dir i sefydlu busnesau tyfu. Fodd bynnag, cytunwyd bod prinder llafur hyfforddedig, a bod llawer o dyfwyr yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gefnogi eu menter, yn enwedig ar

adeg cynaeafu. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr rhag cynyddu graddfa'r sector.

4.11 Roedd materion sgiliau penodol yn cynnwys sgiliau tyfu permaddiwylliant, compostio, sgiliau planhigfa ac iechyd pridd.

*Amodau'r farchnad*

4.12 Nododd sawl rhanddeiliad fod y farchnad a'r rhwydwaith dosbarthu ar gyfer bwyd wedi'u dominyddu gan nifer fach o gwmnïau manwerthu a phrosesu mawr ar hyn o bryd. Er bod manwerthu mawr yn cynnig nwyddau sy'n dod o bedwar ban byd a chyfleuster dewis dan un to, mae'n gallu bod yn anodd i dyfwyr gystadlu o'r herwydd. Ar adeg tlodi bwyd ac argyfwng costau byw, mae'n anodd i bobl gefnogi tyfwyr cymunedol pan ystyrir bod bwyd yn rhatach mewn archfarchnadoedd oherwydd polisïau cyrchu ac arbedion maint.

4.13 Cynigiwyd safbwynt gwahanol ar y mater hwn mewn trafodaethau, gan fod cyfranogwyr yn teimlo bod prif gyfrifoldeb archfarchnadoedd i gyfranddalwyr yn golygu bod perygl i ystyriaethau amgylcheddol fod yn flaenoriaeth isel o ran cyrchu cynhyrchion.

**Buddion cynhyrchu**

4.14 Cynigiodd tyfwyr a rhanddeiliaid eraill ystod eang o fuddion yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd cymunedol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar argaeledd bwyd ffres ac iachus sy'n cael ei dyfu a'i fwyta o fewn ardal leol, a'r buddion cysylltiedig o ran iechyd a chydlyniant cymunedol sy'n gallu dod yn sgil hyn.

4.15 Roedd manteision eraill yn cynnwys;

- Defnydd cynhyrchiol iawn o dir mewn garddwriaeth ar raddfa fach.
- Buddion cadwyni cyflenwi byr o ran cynnal diogeledd bwyd a meithrin cymuned trwy'r berthynas uniongyrchol rhwng y tyfwr a'r defnyddiwr.
- Buddion amgylcheddol garddwriaeth adfywiol o ran dosbarthu'n lleol. Mae'r rhain yn cynnwys ôl troed carbon isel cynhyrchu a

dosbarthu, yn ogystal â buddion yn sgil dulliau cynhyrchu sy'n gyfeillgar i natur.

- Cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a chysylltiadau â phresgripsiynu cymdeithasol. Cydnabyddir bod ymwneud â thyfu'n fuddiol i les, er nad oedd gweithwyr iechyd proffesiynol bob amser yn cydnabod hyn.
- Cyfeiriodd rhanddeiliaid at rôl rhandiroedd fel modd i deuluoedd fwydo eu hunain a'u cymdogion heb ganfyddiad o fod yn "wahanol". Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau dosbarth gweithio mwy traddodiadol neu ymhlith rhai grwpiau ethnig leiafrifol.

4.16 Cyfeiriodd rhanddeiliaid yn aml at addasu maint garddwriaeth ar raddfa fach ac roedd rhai tyfwyr yn credu mai'r ffordd orau o gyflawni hyn oedd trwy rwydweithio a chydweithredu, yn hytrach na thyfu busnesau unigol i raddfa fferm.

**Rhwystrau rhag bwyta bwyd cymunedol**

4.17 Mae canfyddiadau o fwyd cymunedol yn rhwystr mawr rhag cynyddu faint ohono a fwyteir, gan fod llawer o bobl yn credu bod cynnyrch a gynhyrchir yn lleol, ac yn enwedig cynnyrch organig, yn ddrud. Teimlai rhanddeiliaid fod perygl i fwyd lleol gael ei ystyried yn foethusrwydd, er gwaethaf ei fuddion amgylcheddol a'i gyfraniad at y gymuned.

4.18 Gwaethygir hyn i ryw raddau gan ddiffyg eglurder ynglŷn â beth yw deiet cynaliadwy, heb safbwynt unigol ynglŷn â beth y gallai ei gynnwys. Er bod llawer yn cytuno bod cynnyrch ffres yn iachus ac yn faethlon, ni chytunir bod lleol yn well o reidrwydd – er enghraifft, os gellir tyfu pupur coch gyda llai o ymyrraeth mewn hinsawdd gynhesach dramor. Gall hyn arwain at negeseuon cymysg i ddefnyddwyr, sy'n gallu eu hannog i beidio â phrynu'n lleol.

4.19 I rai defnyddwyr, mae'r syniad o brynu cynhwysion amrwd, heb eu prosesu yn her rhy fawr, o ystyried cyfyngiadau amser a chyllideb ac ansicrwydd ynghylch gwir gost coginio ar adeg pan fo prisiau ynni'n

uchel iawn. I ran defnyddwyr, mae bwydydd cludfwyd sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen (HFSS) yn rhoi lefel o sicrwydd sy'n caniatáu iddynt gyllidebu ar gyfer bwydo teulu.

4.20 Mae goruchafiaeth y model archfarchnad yn annog defnyddwyr i brynu o un ffynhonnell. Felly, mae'r newid diwylliannol / ymddygiadol sy'n angenrheidiol i brynu cynnyrch tymhorol o ffynonellau cymunedol, ar yr un pryd â chael nwyddau eraill o'r archfarchnad, yn gofyn am lefel o ymrwymiad sy'n gallu bod yn anodd ei chyflawni. Mae cyflwyno hybiau bwyd wedi cymryd camau tuag at fynd i'r afael â'r mater hwn, ond mae rhanddeiliaid yn cytuno mai'r bwyd organig iachaf a lleiaf dwys o ran carbon yw'r lleiaf hygyrch i ddefnyddwyr o hyd.

4.21 Dylid nodi bod gwahaniaeth sylweddol hefyd rhwng dehongliadau o 'fwyd lleol' a 'bwyd cymunedol'. Yn aml, mae bwyd lleol yn gysylltiedig â marchnadoedd ffermwyr, manwerthwyr annibynnol, a chynlluniau llysiau organig/blychau ryseitiau, a werthir am bris uchel i adlewyrchu eu tarddiad lleol.

4.22 Fodd bynnag, mae bwyd cymunedol yn llawer mwy cysylltiedig â gwastraff bwyd a bwyd am ddim a ddosberthir trwy fanciau bwyd ac mae wedi datblygu arwyddocâd negyddol trwy stigma cymdeithasol derbyn elusen. Yn ôl Ymddiriedolaeth Trussell[26], roedd eu rhwydwaith nhw yn unig wedi dosbarthu bron 3 miliwn o barseli bwyd brys yn ystod y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, ac roedd cyfran gynyddol o bobl a oedd yn gweithio ymhlith y rhai a'u derbyniodd.

4.23 Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod gwaith i'w wneud i herio canfyddiadau ynglŷn â bwyd dros ben, er mwyn cynyddu gwerthfawrogiad o'r ystod o ymdrechion i wneud i'n bwyd fynd ymhellach. Mae pantrïoedd cymunedol a hybiau bwyd yn chwarae rôl arwyddocaol yn hyn o beth trwy ddarparu modelau aelodaeth gymorthdaledig, sy'n helpu i ddileu stigma 'banc bwyd', rhoi mwy o urddas i'r rhai sy'n derbyn bwyd

---

[26] https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/

cymunedol – a helpu sefydliadu cymunedol i gynnal eu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

4.24 At ei gilydd, cytunir bod gwaith i'w wneud o hyd i wneud bwyd cymunedol yn "ddewis rhwydd" sy'n cyfateb i gyfleustra manwerthwyr mawr, ac i normaleiddio ei rôl y tu hwnt i gysylltiad penodol â phobl sydd 'mewn angen'.

**Buddion bwyta bwyd cymunedol**

4.25 Pwysleisiodd rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â bwyd cymunedol amrywiaeth o fuddion i gymunedau ac unigolion trwy ymgysylltu â'r cyflenwad bwyd lleol:

- Cydlyniant cymunedol a hyder. Trwy ymgysylltu â thyfu lleol fel defnyddwyr neu wirfoddolwyr, gall aelodau'r gymuned ddatblygu perthynas gyda thyfwyr a chyda'i gilydd. Mae rhai tyfwyr yn cynnal diwrnodau agored a phrydau cymunedol, sy'n cyfrannu tuag at gymunedau mwy bywiog ac yn gallu datblygu gallu'r gymuned i ddysgu am fwyd, coginio a maeth. Trwy hyn, gall prosiectau gynyddu gallu meddyliol pobl i reoli eu bywydau eu hunain yn fwy effeithiol (bwyta'n iach ac ati) a gwneud penderfyniadau cadarnhaol am ddeiet a maeth.
- Cyfrannu at yr economi sylfaenol trwy greu cadwyni cyflenwi byr o amgylch garddwriaeth ar raddfa fach. Tra bod y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn canolbwyntio ar gyfranddalwyr (a gallent fod ym mherchnogaeth dramor), mae tyfwyr cymunedol yn debygol o gyflogi pobl leol, prynu mewnbwn yn lleol a chadw/buddsoddi elw yn y gymuned. Gall hyn gynyddu cyfoeth cymunedol ac atal incwm rhag mynd allan o Gymru.

4.26 Mae aelodau / cefnogwyr cynlluniau CSA yn enghraifft dda o sut mae defnyddwyr yn gallu cymryd rhan yn y model ar gyfer tyfu'n lleol. Bydd llawer o'r rhain yn ymgymryd ag agweddau ar wirfoddoli gyda chynaeafu, plannu neu ddosbarthu yn ogystal â phrynu cynnyrch.

4.27 Yn ogystal â hyn, mae'r cyfoeth cymdeithasol o hybiau bwyd, clybiau, a phantrïoedd cymunedol sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru ac yn

defnyddio model aelodaeth, oll yn asedau presennol y gallwn adeiladu arnynt. Mae'r mannau hyn eisoes yn normaleiddio'r syniad o 'dalu i mewn' i gymorthdalu caffael bwyd, a bydd y symudiad i archwilio amrywiaeth ehangach o fodelau aelodaeth [27] (sydd hefyd yn gallu cefnogi gweithgareddau tyfu) yn teimlo fel cam nesaf naturiol i lawer.

**Mentrau Bwyd Cymunedol**

4.28 Yn ogystal â'r cyflenwad o fwyd cymunedol a'r galw amdano, mae ystod eang o fentrau cymdeithasol a allai ddefnyddio bwyd fel modd o ymgysylltu, neu sy'n darparu bwyd i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, er enghraifft. Mae banciau bwyd ac oergelloedd cymunedol yn enghreifftiau amlwg o'r olaf, ond maen nhw hefyd yn cynnwys cydweithfeydd bwyd a chaffis cymunedol.

4.29 Rhoddodd rhanddeiliaid rai enghreifftiau da o fentrau bwyd cymunedol, fel y Bocs Bwyd Mawr – menter mewn ysgolion lle mae adnoddau'n cael eu gosod mewn cynhwysydd cludo, sy'n darparu bwyd lleol am brisiau "talu fel y mynnwch" ac amrywiaeth o brofiadau dysgu i gynnwys plant a rhieni mewn materion bwyd, tyfu a choginio.

4.30 Fodd bynnag, nodwyd bod mentrau o'r fath yn cael eu cynnal ad hoc ac nad ydynt yn rhan o unrhyw strategaeth gydlynol, heb fframwaith ar gyfer cyllid na system gymorth ganolog. Esboniodd un darparwr Bwyd Cymunedol fod ei sefydliad wedi cefnogi cynllun tebyg yn lleol, ond bod y prisiau wedi cynyddu bellach (y tu hwnt i'r pris cychwynnol mwy fforddiadwy), ac felly bu'n rhaid i'w grŵp ganslo aelodaeth.

4.31 Yn yr un modd, gall presgripsiynu cymdeithasol gysylltu pobl a chanddynt gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol â phrosiectau bwyd cymunedol, fel modd o'u hymgysylltu, cynyddu hyder ac adfer iechyd. Fodd bynnag, nid yw gwir werth hyn yn cael ei drosglwyddo ar hyn o bryd i'r prosiectau sy'n darparu'r cyfleoedd, ac felly mae'r rhain yn aml yn brin o arian a staff.

[27] Verfuerth, C. & Sanderson Bellamy, A. (2022). Accessible Veg: A pilot project exploring the barriers and benefits to CSA memberships for food-insecure households.

4.32 Mae prosiectau dosbarthu bwyd, fel FareShare ac Ymddiriedolaeth Trussell, yn atal symiau mawr o fwyd (o archfarchnadoedd a phrosesyddion yn bennaf) rhag mynd yn wastraff. Ar hyn o bryd, dosbarthu'r bwyd dros ben hwn yw'r brif ffordd y mae'r mwyafrif helaeth o ddarparwyr bwyd cymunedol ledled Cymru yn caffael bwyd.

4.33 Er y cydnabyddir y gwasanaeth hollbwysig y mae grwpiau bwyd cymunedol wedi'i ddarparu yn ystod adegau o argyfwng, mae llawer ohonynt yn chwilio'n daer am ddulliau ychwanegol ac amgen o gefnogi caffael eu cyflenwad bwyd yn gynaliadwy.

4.34 Yn gyffredinol, mae angen ailffurfio'r sgwrs ynglŷn â dosbarthu bwyd maethlon er mwyn annog defnydd ehangach a sefydlu cydbwysedd rhwng darparu bwyd dros ben, a bwyd a dyfwyd yn lleol.

# 5. Adborth ar y Map Systemau Bwyd Cymunedol

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi adborth rhanddeiliaid ynglŷn â'r map systemau, yn benodol. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r rhanddeiliaid i'w hysgogi i ystyried cywirdeb a strwythur cyffredinol y map, fel:

- Beth ydych chi'n ei sylwi am y ffordd y mae'r map wedi'i strwythuro?
- Beth all y map presennol ei ddweud wrthym am fwyd cymunedol yng Nghymru?
- Sut mae'r thema 'x' yn cael ei chynrychioli gan y map?
- Yn seiliedig ar eich dealltwriaeth o fwyd cymunedol, beth (os o gwbl) sydd ar goll o'r map?
- Faint o fanylion y dylai'r map geisio eu cyfleu?

**Adborth Cychwynnol**

5.2 Rhoddodd rhanddeiliaid adborth cymysg pan gyflwynwyd y map iddynt gyntaf. Lle y bo'n briodol, roedd yr holl sesiynau'n cynnwys cyflwyniad byw i'r map a'i nodweddion – yn ogystal ag ychydig o 'amser tawel' pryd y gallai rhanddeiliaid a oedd yn fwy technolegol wybodus gyrchu'r map yn uniongyrchol a'i lywio eu hunain. Yn y grwpiau ar gyfer aelodau cymunedau a gwirfoddolwyr, tybiwyd bod cyflwyniad uniongyrchol i'r map yn llai priodol – o ystyried ei gynulleidfa darged (rhanddeiliaid strategol).

5.3 Gallai mwyafrif y rhanddeiliaid gydnabod faint o amser ac ymdrech a fuddsoddwyd yn yr ymarfer mapio. Roedd llawer yn gwerthfawrogi'r safbwynt cynhwysfawr yr oedd yn ei gynnig ac yn cydnabod bod mapio gweledol yn fodd effeithiol o ddeall systemau cymhleth.

5.4 Dywedodd rhai fod y map gweledol ei hun yn 'rhy lethol' a sylwodd y tîm ymchwil y gallai atal ymgysylltiad pan ganolbwyntiwyd arno fel y prif bwynt trafod, gan fod rhanddeiliaid yn teimlo dan bwysau i ddehongli'r map yn iawn, neu'n amharod i'w herio. Fodd bynnag, wrth symud i ffwrdd o'r map (tuag at y bwrdd Miro), roedd rhanddeiliaid yn

aml yn fwy parod i fynegi'r cwestiynau neu'r ystyriaethau yr oedd wedi'u hysgogi iddynt.

5.5 Ochr yn ochr â'u hadborth cadarnhaol at ei gilydd, rhoddodd rhanddeiliaid feirniadaeth adeiladol hefyd, er mwyn ceisio gwella cywirdeb a chyflawnder y map.

5.6 Mae'r adborth hwn yn amlygu meysydd posibl i'w haddasu a awgrymwyd gan randdeiliaid. Dylid dehongli hyn yn y cyd-destun y bwriadwyd i'r map systemau presennol gynrychioli dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r *sefyllfa bresennol* ac nid ei dyheadau. Mae'n anochel y gallai rhai o'r awgrymiadau gan randdeiliaid gael eu dehongli'n wahanol, ond, er hynny, gallant fod yn arwyddion defnyddiol o fethiant y farchnad bresennol a phwyntiau gweithredu posibl neu le i ysgogi polisi.

5.7 Mae cwestiwn sylfaenol yma hefyd ynglŷn â ph'un a yw'r map yn gynrychioliad o'r system fwyd gyfan fel y saif neu'n fap o statws presennol bwyd cymunedol. Gallai'r ddau fan cychwyn hyn arwain at ddehongliadau gwahanol a goddrychol o'r sefyllfa bresennol, ac mae angen ystyried hyn.

*Adborth ar strwythur a phwysoliad elfennau*

5.8 Mynegodd rhanddeiliaid o sefydliadau gwirfoddolwyr a gweithredwyr rywfaint o bryder ynglŷn â'r ffordd y cynrychiolir perthnasoedd neu 'ddolenni' adborth yn y Map, gan fod perygl y gallai rhyng-gysylltedd elfennau arwain at dybiaethau problemus ynglŷn â lefel dylanwad neu bwysigrwydd elfen.

5.9 Yn benodol, roeddent yn pryderu ynglŷn â'r pwyslais dwys ar economeg ac amaethyddiaeth, gan gydnabod o'u profiadau eu hunain o ddarparu bwyd cymunedol bod gan y ffactorau hyn rôl leiafsymiol yn y system fwyd gymunedol bresennol (heblaw am gyfrannu at fwyd dros ben).

5.10 Yn ychwanegol, nododd rhanddeiliaid fod rolau lletygarwch a thwristiaeth mewn economïau bwyd lleol ar goll, gan bwysleisio bod

gan y meysydd hyn gysylltiadau pwysig â natur y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir mewn ardal benodol.

5.11 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn gweithio ym maes caffael sector cyhoeddus yn pryderu y gallai'r "cyd-destun" bwyd cymunedol amrywio'n sylweddol wrth gymharu gwahanol rannau o Gymru. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw'r map yn llwyr gyfleu natur amrywiol systemau bwyd cymunedol ar draws y wlad. Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod paramedrau'r map yn cael eu diffinio'n fwy eglur wrth symud ymlaen – cyflwynir trafodaeth ychwanegol ar hyn yn adran 6 yr adroddiad hwn.

5.12 Nododd rhanddeiliaid o'r sector preifat ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru edrych ar y cyd-destun bwyd cymunedol mewn ffordd strategol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd blaenoriaethu camau cyflym ymlaen i greu momentwm a hwyluso newid cadarnhaol. Yn hyn o beth, awgrymwyd y dylai'r map gael ei ddylunio i amlygu'r camau cyflym ymlaen hyn yn benodol, er enghraifft diwygio'r ardaloedd tyfu lleiaf er mwyn i dyfwyr fod yn gymwys ar gyfer cymorth ac i gael mynediad at hawliau datblygu a ganiateir.

5.13 Fodd bynnag, gellid gwrthddadlau trwy ddweud bod natur broblemus 'byrdymhoriaeth' wedi cael ei nodi'n fynych droeon fel rhywbeth sy'n achosi'r diffygion yn ein system fwyd ehangach, a mynegodd rhanddeiliaid feirniadaeth ganolog nad yw'r Map yn adlewyrchu sut byddai penderfyniadau cynaliadwy'n cael eu gwneud i gefnogi'r CFS. Er bod y sylw hwn yn ymwneud â'r hyn yr hoffai rhanddeiliaid ei weld, mae'n mynegi teimlad mwy cyffredinol o ran y gred bod bwyd cymunedol yn rhan annatod o wead cymdeithasol ac economaidd Cymru.

5.14 Roedd cyfranogwyr o'r grŵp Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, a gweithdai ehangach, o'r farn bod rhaniad strwythurol sylweddol rhwng y 'gymuned' a gynrychiolwyd ar un ochr o'r map a dylanwad 'manwerthwyr mawr' ar yr ochr arall. Roeddent yn teimlo nad oedd y

map yn dangos canlyniadau ac effeithiau sy'n deillio o'r perthnasoedd rhwng y rhain.

**Ymchwiliad thematig**

5.15 Rhoddodd y meysydd diddordeb a nodwyd trwy adborth yn ystod ein cam profi cyflwyniadol gyda'r Grŵp Arbenigol sail naturiol ar gyfer strwythuro'r gyfres o weithdai o amgylch y themâu allweddol canlynol.

**Y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd**

5.16 Roedd rhanddeiliaid yn falch o weld presenoldeb CSA ar y map, gan ei bod yn gynhenid gysylltiedig â system fwyd dra lleol sy'n blaenoriaethu dulliau cynhyrchu bwyd cynaliadwy. Fodd bynnag, mynegwyd cryn bryder ynglŷn â phwyslais economaidd cynhyrchu bwyd ochr yn ochr â phresenoldeb amaethyddiaeth ddwys. Er y cydnabuwyd mai dyma'r system sydd drechaf yng Nghymru, teimlwyd nad oedd ei chostau cymdeithasol ac amgylcheddol yn amlwg o'r map.

5.17 Er y bwriedir i'r map gyflwyno System Fwyd Gymunedol Cymru ar ei ffurf bresennol, mynegwyd pryderon nad yw risgiau newid yn yr hinsawdd (a thystiolaeth ohono) wedi cael eu mynegi'n ddigonol yn ei fersiwn bresennol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid nad oedd y cyfiawnhad bod y map yn adlewyrchu 'statws presennol' Bwyd Cymunedol yn rheswm sylweddol dros ei eithrio. Mae methu â chyfleu'n gywir y berthynas arwyddocaol rhwng y system fwyd ehangach (a'i dibyniaeth ar fewnforio/allforio, yn ogystal ag arferion ffermio anghynaliadwy) a'r newid yn yr hinsawdd – yn creu risg o gyflwyno dolen adborth niweidiol trwy'r map.

5.18 Roedd rhanddeiliaid yn pryderu bod y map yn colli'r gwahaniaeth cynnil rhwng ffermio màs-ddiwydiannol a thyfu ecolegol ar raddfa fach. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y map yn dangos yn ddigonol cymhelliad elw'r sector preifat yn y system fwyd a'r diffyg cysylltiad o ran perthynas y sector preifat â Bwyd Cymunedol.

5.19 Mynegwyd hyn gan randdeiliaid arbenigol hefyd ochr yn ochr â phryderon ynglŷn ag absenoldeb bioamrywiaeth, heb lawer o

gydnabyddiaeth neu ddim cydnabyddiaeth o rôl tyfu un fath o gnwd ac amaethyddiaeth ddwys wrth waethygu colli bioamrywiaeth.

5.20 Awgrymodd cyfranogwyr yn y grwpiau rhanddeiliaid amgylcheddol y byddai'n fuddiol cydnabod tueddiadau deietegol a'u perthynas â'r system fwyd hefyd. Ochr yn ochr â hyn, dylid rhoi rhywfaint o gydnabyddiaeth i effaith newidiadau i ddeiet ar bobl a'r blaned. Gallai hyn helpu llunwyr polisïau i ddeall yn well y cysylltiadau rhwng y ffordd y gall cynhyrchu bwyd, prisiau, a hysbysebu ffurfio tueddiadau deietegol cadarnhaol neu negyddol.

5.21 Awgrymodd rhanddeiliaid o'r grŵp hwn fod angen i'r map gynnwys mwy o bwyslais ar reoli tir hefyd, ochr yn ochr ag awgrymiadau ynglŷn â pha opsiynau defnydd tir posibl sydd ar gael a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y system fwyd.

5.22 Roedd rhanddeiliaid o'r sector preifat yn awyddus i amlygu rôl technegau ffermio organig wrth hyrwyddo bioamrywiaeth a chynnig datrysiadau cynaliadwy i wneud cynhyrchu'n fwy eco-gyfeillgar.

**Diogeledd bwyd cenedlaethol**

5.23 O ran cysylltiad uniongyrchol â'r risgiau a gyflwynir gan y newid yn yr hinsawdd, mynegodd rhanddeiliaid bryderon perthnasol ynglŷn â bregusrwydd cynyddol system fwyd Cymru.

5.24 Gan gydnabod bygythiadau cynyddol i'r cyflenwad bwyd byd-eang (a ddangoswyd gan effeithiau diweddar ymosodiad Rwsia ar Wcráin a methiannau cynaeafau Mediteranaidd), arweiniodd trafodaethau ar y map at fwy o ddiddordeb mewn cynyddu ein capasiti ar gyfer cyflenwi. Roedd gan randdeiliaid ddiddordeb arbennig mewn enghreifftiau llwyddiannus a allai dreialu a pharatoi'r ffordd, gan ddarparu map trywydd y gallai mentrau Bwyd Cymunedol eraill ddysgu ohono yn y dyfodol agos.

5.25 Mae llawer o randdeiliaid yn ystyried bod Cymru yn wlad fregus, o ganlyniad i'n lefelau isel o gynhyrchu garddwriaethol, sy'n golygu bod ein sofraniaeth fwyd yn gymharol wael – er ein bod yn elwa o hinsawdd fanteisiol. Ystyriwyd bod yr angen i gynyddu cynhyrchu

garddwriaethol yn fodd o gynyddu gwydnwch a diogelu yn erbyn effeithiau rhagamcanol yr hinsawdd, yn ogystal â chynnig ystod o effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

5.26 Yn ogystal â hyn, amlygodd rhanddeiliaid y byddai defnyddio ein hadnoddau ein hunain yn fwy effeithiol yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y nod '*Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*' yn yr WFGA.

**Anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ac ansawdd deiet**

5.27 Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid y gallai'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, tlodi materol a dewisiadau deietegol cyfyngedig gael eu mynegi'n fwy eglur trwy'r map.

5.28 Roedd rhanddeiliaid o'r trydydd sector eisiau gweld mwy o eglurder ynglŷn ag effeithiau'r argyfwng costau byw ar y cyflenwad bwyd cymunedol – trwy lai o roddion, capasiti sefydliadau'r trydydd sector ac argaeledd gwirfoddolwyr.

5.29 Byddai'r ffactorau hyn yn cael eu gosod yn erbyn y galw cynyddol am ddarparu bwyd rhad a brys, gan arwain at angen fwy fyth.

5.30 Trafodwyd natur ac ansawdd cynhyrchion bwyd dros ben neu a gyfrannwyd fel rhodd yn hirfaith hefyd, a phwysleisiodd gwirfoddolwyr, y trydydd sector ehangach, a gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol **na allai bwyd dros ben fod yn ddatrysiad tymor hir i gefnogi cymunedau**. Tynnodd llawer o randdeiliaid sylw at y ffaith fod nifer fawr o fentrau Bwyd Cymunedol wedi dechrau fel 'ymateb brys' i'r hyn yr oeddent yn disgwyl iddo fod yn angen tymor byr. Nid oeddent byth wedi disgwyl i'r dirywiad mewn safonau byw a'r lefelau cynyddol o dlodi bwyd gyrraedd y lefelau uchaf erioed a welir yn yr amgylchiadau presennol.

5.31 Felly, mae angen cydnabod nad yw bwyd dros ben (cynhyrchion tun, oes hir, wedi'u prosesu yn bennaf) yn ddatrysiad priodol i gefnogi aelwydydd dros gyfnod hwy. Nid yw'r cynnyrch a ddarperir gan

fentrau Bwyd Cymunedol ar hyn o bryd yn ddigonol i gefnogi deiet maethlon, cytbwys.

5.32 Amlygwyd y cylch cythreulig rhwng anghydraddoldeb cymdeithasol, deiet annigonol, canlyniadau iechyd gwael a diffyg mynediad at gyflogaeth – ac ystyriwyd bod bwyd cymunedol yn gyfle posibl i dorri'r cylch.

5.33 Cyfeiriodd rhanddeiliaid at bontio teg hefyd a'r perygl bod y newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf ar yr aelodau tlodaf o gymdeithas. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhoi mwy o gymorth i'r rhai lleiaf cefnog mewn cymdeithas i gynnal lefel sylfaenol o faeth yn eu deiet.

**Rôl y sector cyhoeddus**

5.34 At ei gilydd, teimlai rhanddeiliaid fod y sector cyhoeddus wedi'i gynrychioli'n gyfyngedig yn y map. Er y derbyniwyd bod caffael sector cyhoeddus wedi'i gydnabod trwy fodolaeth ei ddolen ei hun, teimlwyd bod angen mwy o fanylion o ystyried pwysigrwydd rôl y sector cyhoeddus, yn enwedig yng nghyd-destun pennu meini prawf sy'n cefnogi cynnyrch lleol wrth gymhwyso contractau caffael cyhoeddus ar raddfa fawr.

5.35 O ystyried ei amlygrwydd a'i gyfrifoldeb yn y system fwyd, mynegwyd bod angen i gaffael cyhoeddus gael ei gyfleu'n fwy eglur yn y map. Yn benodol, ei gyfraniad at yr agenda iechyd ataliol a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy Fwyd Cymunedol, yn bennaf trwy'r nod *Cymru Iachach*.

5.36 Amlygwyd bod prinder lle hygyrch ar gyfer cymunedau yn broblem hefyd, nad yw wedi'i ddangos yn y map ar hyn o bryd. At hynny, tynnwyd sylw at rôl y sector cyhoeddus wrth gydlynu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i fwyd cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu'r sector cyhoeddus â sgiliau garddwriaethol yn y map.

5.37 Wrth siarad yn ehangach am y berthynas rhwng y sector cyhoeddus a bwyd cymunedol, amlygwyd yr ymagwedd systemau a fabwysiadwyd yn Sir Gaerfyrddin tuag at fapio'r rhwystrau ariannol rhag cyrchu bwyd

lleol ffres fel enghraifft dda i gyrff sector cyhoeddus eraill ei dilyn. Canmolwyd Sir Gaerfyrddin hefyd am ei Hyb Bwyd Cymunedol sy'n cydgrynhoi cynnyrch o gynhyrchwyr ar raddfa fach, gan gefnogi garddwriaeth ac arallgyfeirio ffermydd, ar yr un pryd â chreu cadwyni cyflenwi mwy cydnerth.

**Rôl y sector preifat**

5.38 Mae bwlch nodedig mewn adborth rhanddeiliaid ynglŷn â rôl y sector preifat. Mae diffyg ymgysylltiad cynrychiolwyr y sector preifat â'r ymarfer (ar lefel uwch dylanwad masnachol) yn golygu nad oes gennym lawer o dystiolaeth i ddangos bod archfarchnadoedd yn gallu cyfrannu at fwyd cymunedol ac y byddant yn gwneud hynny. Yn yr un modd, ni welodd rhanddeiliaid lawer o gysylltiad rhwng y system fwyd fasnachol a *chynhyrchu* bwyd cymunedol. Wedi dweud hynny, gwnaeth rhanddeiliaid sylwadau ar y sector preifat trwy'r arsylwadau canlynol:

- Diddordeb yn y potensial i gynhyrchwyr annibynnol, llai o faint gyflenwi bwyd cymunedol trwy gyfrwng caffael sector cyhoeddus (a ffurfio cydweithfeydd er mwyn cyflenwi ar y raddfa ofynnol)
- Cydnabyddiaeth bod cynhyrchwyr annibynnol, llai o faint yn gallu gwneud cyfraniad ystyrlon at yr economi sylfaenol ac economïau lleol ledled Cymru, a'u bod yn gwneud hynny
- Cydnabyddiaeth na fydd cynhyrchwyr annibynnol, llai o faint yn cystadlu ag archfarchnadoedd o ran prisiau, ond bod marchnad defnyddwyr mwy cefnog i gefnogi cynnyrch lleol
- Pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng 'bwyd am ddim' a bwyd cymunedol, a chydnabod na ddylai'r pethau hyn fod yn annibynnol ar ei gilydd
- Bod y berthynas rhwng manwerthwyr archfarchnad a darpariaeth bwyd cymunedol yn digwydd trwy gyfrwng dosbarthu bwyd gwastraff yn bennaf
- Cydnabyddiaeth bod archfarchnadoedd yn galluogi dewis mwy amrywiol a chyfleustra i ddefnyddwyr

- Cydnabyddiaeth bod siopa mewn archfarchnad yn gallu helpu aelwydydd sy'n fyr o amser ac opsiynau trafnidiaeth i gyllidebu eu siopa bwyd a chynllunio eu prydau'n fwy effeithiol
- Potensial i gynhyrchwyr gydweithio'n uniongyrchol â darparwyr bwyd cymunedol, ar yr un pryd â chadw incwm trwy fodelau cymorthdaledig (clybiau bwyd fforddiadwy, modelau aelodaeth sy'n galluogi cynnyrch mwy amrywiol ar gyfer cymunedau y tu hwnt i eitemau dros ben)

5.39 Mae natur yr adborth a roddwyd am rôl y sector preifat yn adlewyrchu ei safle canolog yn ein system fwyd. Er bod rhanddeiliaid yn cytuno mai dyma'r 'realiti' ar hyn o bryd, amlygwyd hefyd pa mor broblemus yw hyn yng nghyd-destun diffyg diogeledd bwyd helaeth mewn aelwydydd. Hyd nes y gall archfarchnadoedd ddarparu naratif cymhellol ynglŷn â'u rôl wrth ddarparu bwyd ffres hygyrch sydd hefyd yn gallu gwarantu milltiroedd bwyd isel, bydd yn anodd i'r rhai sy'n ymwneud â bwyd cymunedol wneud sylwadau ar alluoedd y dylanwadau mwyaf pwerus yn y sector preifat i gyfrannu at y CFS.

**Beth sydd ar goll o'r map?**

5.40 Er mwyn helpu i ddatblygu'r map ymhellach, gofynnwyd i'r rhanddeiliaid amlygu unrhyw ffactorau penodol y dylid ystyried eu cynnwys. Gallai'r rhain gynnwys bylchau presennol neu rai dyheadau, a chant eu rhestru isod:

**Tabl 1: Rhestr o awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer newidiadau i'r map**

| **Addysg ac Iechyd** |
|---|
| Mwy o bwyslais ar atal |
| Mwy o gyfeiriadau at les |
| Clefydau cronig |
| Ymdeimlad nad yw rôl ysgolion yn cael ei chynrychioli'n ddigonol yn y map presennol |
| Addysg a sgiliau bwyd yn rhy leiafsymiol |
| **Ffermio a Thyfu** |
| Permaddiwylliant |

| |
|---|
| Gwneud compost |
| Y galw am sgiliau |
| Risgiau gorddibyniaeth ar un fath o rywogaeth |
| Effeithiau mecaneiddio ar y gymuned |
| Blaenoriaethu iechyd pridd |
| Dylanwad cryfach y system gymorthdaliadau |
| Rôl technoleg (da a drwg) |
| Mwy o bwyslais ar reoli tir (canlyniadau colli tir ar gyfer plannu coed) |
| Rôl tir ar gyfer hamdden (e.e. cyrsiau golff) |
| Gwahaniaethau mewn mynediad at dir ar draws Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd |
| **Anghydraddoldeb Cymdeithasol a'r Gymuned** |
| Ystyried 'diffeithdiroedd bwyd' |
| Rôl y trydydd sector wrth ddarparu diogeledd bwyd aelwydydd |
| Angen cydnabod amrywiaeth dosbarthu bwyd cymunedol |
| Mwy o bwyslais ar gyfrifoldeb byd-eang |
| Rôl arwyddocaol tai cymunedol |
| Ymddangosiad datrysiadau arloesol (apiau rhannu bwyd, peiriannau gwerthu bwyd sy'n darparu mynediad 24/7 at fwyd brys yn Sir Benfro) |
| Darparu bwyd cymunedol 'am ddim' |
| Darparu bwyd cymunedol cymorthdaledig/wedi'i seilio ar aelodaeth |
| **Yr Hinsawdd a'r Amgylchedd** |
| Bioamrywiaeth |
| Diflaniad rhywogaethau |
| Nid yw'r elfen forol wedi cael ei chynnwys |
| Ymgorffori bioamrywiaeth mewn tai (ehangu rôl mannau gwyrdd) |
| Ystyried mewnforion ar ein mannau gwyrdd. Defnydd o fwyd a diod yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau carbon |
| **Polisi / Cyffredinol** |
| Rôl Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Sero Net 2030 |
| Yr economi sylfaenol |
| Pontio Teg |
| Dylai adlewyrchu tueddiadau e.e. effeithiau ar yr hinsawdd, effeithiau ar ddeiet |
| Rôl lleihau gwastraff ac ailgylchu |
| Angen i'r sector lletygarwch gael ei gynrychioli'n fwy o lawer |
| Cydnabod byrdymhoriaeth (yn gyffredinol) |
| Iaith fwy pendant |

| |
|---|
| Angen dangos manteision systemau lleol sy'n cynhyrchu bwyd iachach a mwy ffres o gymharu â bwyd sy'n cael ei fasgynhyrchu, ei storio am gyfnodau hwy a'i fewnforio o bellteroedd mawr |

## 6. Modelau Amgen o Fapio Systemau Bwyd Cymunedol

6.1 Ar ôl yr adolygiad cychwynnol o'r map systemau bwyd cymunedol gyda rhanddeiliaid, penderfynwyd treialu rhai fersiynau amgen ohono. Roedd hyn wedi'i seilio ar adborth bod y map presennol wedi'i sbarduno gan economeg i raddau helaeth ac efallai nad oedd yn rhoi lle digon canolog i'r system fwyd gymunedol.

6.2 Cafodd llawer o randdeiliaid drafferth adnabod naratif neu 'lif rhesymegol' o amgylch strwythur y map cychwynnol hefyd – teimlwyd y byddai darparu ymdeimlad mwy diffiniedig o strwythur yn helpu i roi eglurder.


6.3 Brasluniwyd tri dewis amgen ac ymgynghorwyd â detholiad bach o randdeiliaid ynglŷn â phob un i fesur cefnogaeth i ail-lunio. Amlinellir enghreifftiau a sylwadau isod.

**Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

6.4 Roedd yr enghraifft gyntaf yn rhoi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghanol y map, gyda'i saith nod o'i hamgylch. Fe'i dewiswyd i gydnabod rôl ganolog WFGA wrth ddylanwadu ar holl bolisïau Cymru yn y dyfodol.

6.5 Ychwanegwyd enghreifftiau o sut byddai gwahanol elfennau o'r map yn ymateb i'r nodau, er mwyn deall sut gallai hyn ddatblygu.

6.6 Teimlai rhanddeiliaid y byddai'r ymagwedd yn ddefnyddiol i helpu rhai grwpiau i ddeall y berthynas bolisi, ond awgrymwyd y gallai'r ymagwedd fod yn feichus pan fyddai'n cael ei chymhwyso i'r holl elfennau.




Ffynhonnell: Miller Research. https://kumu.io/millerresearch/wfga-approach


6.7 Nodwyd hefyd y gallai’r ymagwedd hon orgyffwrdd/dyblygu gormod ar draws elfennau a allai gyfrannu at nodau llesiant lluosog.

**Rhanddeiliaid yn y System Fwyd Gymunedol**

6.8 Roedd ail ymagwedd yn gosod dolen o bedwar grŵp rhanddeiliaid allweddol yng nghanol y map, sef:

- Ffermwyr a thyfwyr
- Y llywodraeth / sector cyhoeddus
- Cymunedau / dinasyddion
- Gweithgynhyrchwyr / manwerthwyr

6.9 Cysylltwyd clystyrau enghreifftiol o elfennau â grwpiau rhanddeiliaid, i ddangos sut gallai’r map esblygu.




Ffynhonnell: Miller Research. https://kumu.io/millerresearch/stakeholder-approach#community-food-strategy-stakeholder-approach

6.10 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r ymagwedd hon yn gyffredinol, er bod pryderon y dylai'r holl faterion effeithio ar yr holl randdeiliaid i ryw raddau ac felly efallai bydd angen i'r map gynnwys niferoedd sylweddol o gysylltiadau i fod yn gadarn.

**Ymagwedd Cyflenwad a Galw**


6.11 Rhoddodd y trydydd dewis amgen dri ffactor allweddol yng nghanol y map:

- Y cyflenwad o fwyd cymunedol
- Y galw am fwyd cymunedol
- Prosiectau sy'n gysylltiedig â bwyd cymunedol

6.12 Yn ogystal, ar y map hwn, cyflwynwyd elfen ddehongli trwy ddisgrifio'r rhyngweithio rhwng dwy elfen mewn testun disgrifiadol ar y cysylltiad perthnasol. Mae hyn yn caniatáu i rai elfennau gael eu dileu o'r map a byddai'n lleihau amwysedd.

6.13 Mae'r map yn cyflwyno materion wedi'u cyfuno'n glystyrau yn ymwneud â'r tair elfen graidd, sy'n caniatáu ar gyfer archwilio'r rhyngweithiadau rhyngddynt. Mae cylch o fentrau polisi a strategaeth o amgylch yr elfennau sy'n disgrifio'r ffactorau allweddol yn yr ecosystem fwyd gymunedol. Gadawyd y rhain, i'w defnyddio fel pwyntiau mynediad wrth ystyried pwyntiau ysgogi. Er enghraifft, gellir cysylltu prydau bwyd ysgol am ddim â chaffael bwyd lleol, i ysgogi'r cadwyni cyflenwi a chefnogi cymunedau lleol. Mae'r sicrwydd o faeth iachus yn bwydo'n ôl i bolisi iechyd, ac yn y blaen.

6.14 Y tu hwnt i'r maes polisi, mae rhanddeiliaid allweddol wedi cael eu mapio, ond wedi'u gadael yn ddigyswllt i raddau helaeth, er mwyn annog trafodaethau ysgogi pellach. Gall hyn archwilio sut mae pob grŵp rhanddeiliaid yn gallu dylanwadu ar y map i fynd i'r afael â dylanwadau negyddol a chylchoedd cythreulig.




Ffynhonnell:
Miller Research

6.15 Roedd y rhanddeiliaid yn ffafrio'r ymagwedd hon fwyaf a chytunwyd i weithio ar ei datblygu hyd at fodel sydd bron yn gyflawn. Ffafriwyd yr ymagwedd cyflenwad a galw oherwydd ei gallu i gynnig dealltwriaeth fwy pendant ac eglur o ble mae bwyd cymunedol yn dod, a pham mae galw amdano.

6.16 Gellir dod o hyd i hyn yn: https://kumu.io/millerresearch/supply-and-demand-approach

## 7. Cyfrifoldebau llywodraethu ac ysgogwyr newid

7.1 Mae amlygu pa randdeiliaid sy'n gyfrifol am sbarduno newid a chyfrannu tuag at strategaeth bwyd cymunedol yn y dyfodol wedi bod yn bwyslais allweddol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Yng nghyd-destun y map, mae amlygu 'ysgogwyr newid', yn enwedig o ran polisi, wedi bod yn allweddol i sicrhau ei ddefnyddioldeb fel offeryn ar ôl yr astudiaeth hefyd.

7.2 Gwnaed nifer o sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r ddealltwriaeth yr oedd rhanddeiliaid (yn enwedig gweithwyr proffesiynol y trydydd sector a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ym maes bwyd cymunedol) yn gobeithio y byddai'r map yn ei chyfleu i lunwyr polisïau. I grynhoi, y rhain oedd:

- Dealltwriaeth nad yw'r cyflenwad o fwyd cymunedol (ar ei ffurf bresennol) yn teimlo'n gynaliadwy
- Mae byrdymhoriaeth llawer o gylchoedd cyllido yn y trydydd sector yn tanseilio gallu prosiectau bwyd cymunedol i gynyddu momentwm a ffynnu
- Mae gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr i liniaru methiannau economaidd wedi gwneud i'r sector deimlo'n flinedig ac wedi'i lethu

7.3 Mae'r arsylwadau a amlinellir yn yr adran hon yn cyflwyno'r awgrymiadau a wnaed gan randdeiliaid pan ofynnwyd iddynt *yn fwy penodol* am lwybrau ar gyfer ymyrryd, ar ôl myfyrio ar y map systemau.

7.4 Cyfeiriodd rhanddeiliaid sector cyhoeddus, yn ogystal â grwpiau eraill, at rôl Llywodraeth Cymru fel 'galluogwr' yn aml. Yn hytrach na datgan disgwyliadau ynglŷn â chyllid, mae rhanddeiliaid wedi annog llunwyr polisïau i ystyried eu rôl fel hwyluswyr, gan gynorthwyo grwpiau a phartneriaethau presennol i ychwanegu at eu gweithgareddau.

7.5 Mae hyn wedi cynnwys darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad mewn sawl ffordd, gan gynnwys defnyddio ei **dylanwad dros Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus i sbarduno camau gweithredu**.

7.6 Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru gefnogi polisi sy'n rhoi mynediad cyhoeddus at dir, yn ogystal â phrydlesu lleoedd mewn rhandiroedd. Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys archwilio prydlesu lleoedd mewn rhandiroedd yn amodol, gan flaenoriaethu'r rhai hynny a fyddai'n cael eu defnyddio i gefnogi darparu bwyd cymunedol (yn hytrach na defnydd unigol). Roedd sawl grŵp cymunedol hefyd yn teimlo bod angen eglurder yn ganolog o ran p'un a all bwyd a gynhyrchir trwy randiroedd gael ei werthu ymlaen. Mae'n ymddangos bod nifer o gamdybiaethau ynglŷn â hyn.

7.7 Yn yr un modd, ystyrir y gallai rôl Awdurdodau Lleol fod yn fwy dylanwadol wrth osod gofynion ac amodau ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd (cyhoeddus neu breifat) er mwyn dynodi lle ar gyfer tyfu bwyd cymunedol. Trwy hyn, dychmygir y byddai Awdurdodau Lleol yn clustnodi rhwymedigaethau gorfodol i ddyrannu cyfrannau o unrhyw dir newydd a gaffaelir. Ystyriwyd bod hyn yn fwyaf perthnasol yng nghyd-destun Cymdeithasau Tai a datblygiadau yn y lle cyntaf, ond teimlai rhanddeiliaid y gallai gael ei gymhwyso'n ehangach hefyd – gyda'r bwriad o osod disgwyliadau y dylai busnesau mwy o faint fod yn darparu buddion cymunedol y tu hwnt i 'swyddi newydd'.

7.8 Nodwyd bod ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin a Phowys yn enghreifftiau blaenllaw yn y maes hwn y dylai Llywodraeth Cymru eu hyrwyddo ac annog awdurdodau eraill i'w dilyn. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru fod yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio strategaethau bwyd yn natblygiad cynlluniau datblygu a llesiant lleol gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau eraill. Gellir cymhwyso hyn i'r agenda presgripsiynu cymdeithasol hefyd; gan ei ystyried nid yn unig fel gweithgaredd tyfu, ond fel sail i fynd i'r afael ag iechyd gwael cysylltiedig â deiet mewn ffordd fwy cyfannol.

7.9 Yn y Rhaglen Lywodraethu - diweddariad[28], rhestrir yr ymrwymiad i ddatblygu strategaeth bwyd cymunedol fel ymateb i'r argyfwng

[28] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf

hinsawdd a natur. Yn y cyd-destun hwn, mae angen ystyried cyfraniad bwyd cymunedol at hyrwyddo bioamrywiaeth a lleihau allyriadau carbon, yn ogystal â'r economïau sylfaenol a lleol.

7.10 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran cynllunio ar gyfer llety gwledig, gan gynyddu rhwyddineb mynediad ar gyfer tyfwyr. Fe'i hanogwyd hefyd i ailystyried y system gymorthdaliadau bresennol er mwyn rhoi cymelliadau gwell i dyfu ar raddfa fach, yr ystyrir ei fod yn gynhyrchiol ac yn effeithlon. Dylai rôl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei hystyried er mwyn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer pobl o gefndiroedd ffermio 'anhraddodiadol'.

7.11 Ystyrir hefyd bod Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio ei phwerau cyllidol i sbarduno'r agenda ataliol, gan roi bwyd cymunedol wrth wraidd yr ymdrech hon. Trafododd grwpiau hyfywedd cysylltu cyllidebau'n strategol (ar draws sectorau eraill) i osod bwyd fel blaenoriaeth drosfwaol, gan dargedu canlyniadau iechyd a lles. Er enghraifft, mae bwyd yn broblem arwyddocaol i'r sector iechyd, o ystyried bod tua 30 y cant o'r bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn dioddef diffyg maethiad ac felly'n arafach i adfer ac yn llai tebygol o adfer ac yn fwy tebygol o fynd yn sâl eto. Gallai dyrannu cyfran fach o'r gyllideb iechyd i atal trwy fwyd cymunedol helpu yn hyn o beth.

7.12 **Gwerthfawrogi Bwyd Cymunedol** – roedd yr angen i werthfawrogi Bwyd Cymunedol yn thema gyffredin yn ein holl drafodaethau. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod 'llwyddiant' y diwydiant bwyd prif ffrwd wedi cael ei gefnogi a'i gymorthdalu'n helaeth gan y Llywodraeth, ac y byddai angen i fuddion Bwyd Cymunedol gael eu cydnabod er mwyn iddo gael ei 'ystyried o ddifrif'. Mae rhanddeiliaid yn cyfeirio at botensial Bwyd Cymunedol i gyflawni ystod eang o agendâu polisi o dan y Rhaglen Lywodraethu bresennol fel cymhelliad ar gyfer hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi twf a chydnerthedd yr Economi Sylfaenol

- Sefydlu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer darparu Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd
- Cefnogi'r agenda Gwaith Teg (gwaith teg i dyfwyr, cynhyrchwyr, a gweithwyr y trydydd sector)
- Gwneud cyfraniad sylweddol, buddsoddiad isel at ehangu gweithgareddau Presgripsiynu Cymdeithasol (mae tyfu bwyd yn rhatach o lawer na gweithgareddau awyr agored eraill, er enghraifft)
- Darparu Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith gwerthfawr i gyflawni'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, a Bagloriaeth Cymru – ystyrir bod hyn yn darparu llawer o fuddion o ran cyfraniad uniongyrchol at dyfu cymunedol (lleddfu'r pwysau ar wirfoddolwyr), gwella addysg am fwyd cynaliadwy a rhannu sgiliau sylfaenol ar gyfer 'swyddi gwyrdd' yn ddiweddarach mewn bywyd
- Helpu i hyrwyddo Bwyd a Diod Cymru, gan gynyddu ymwybyddiaeth o fuddion prynu bwyd lleol
- Sicrhau bod dewisiadau iachus ar gael ac yn hygyrch i bawb, gan wneud bwyd maethlon yn opsiwn diofyn, cyfleus – fel na ystyrir bod penderfyniadau i gynyddu neu gyfyngu ar werthu bwyd HFSS nad yw'n iach yn cosbi'r rhai sy'n cael trafferth cyfateb cynnwys calorïau trwy eitemau bwyd ffres
- Ailffurfio'r sgwrs ynglŷn â dosbarthu bwyd maethlon er mwyn annog defnydd ehangach a sefydlu cydbwysedd rhwng darparu bwyd dros ben, a bwyd a dyfwyd yn lleol fel modd o ymgysylltu â'r gymuned.

7.13 At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i bwysleisio eu bod yn credu bod y System Fwyd Gymunedol yn ategu'r system fwyd 'fasnachol', brif ffrwd, yn hytrach na chystadlu â hi. Gwnaethant bwysleisio nad yw'r naill system yn annibynnol ar y llall, a'u bod yn awyddus i hyn gael ei adlewyrchu mewn penderfyniadau llunio polisi wrth symud ymlaen.

7.14 Roedd rhanddeiliaid ar draws grwpiau'n argymell gweithio'n fwy strategol gyda'r sector preifat i gael effaith fwy. Fodd bynnag, roedd

llawer o fentrau bwyd cymunedol wedi cael trafferth llywio’r perthnasoedd hyn yn effeithiol eu hunain a bydd arnynt angen mwy o gymorth yn hyn o beth. Nodwyd bod rhaid i berthnasoedd â’r sector preifat symud y tu hwnt i barodrwydd i ddadlwytho bwyd dros ben o’r manwerthwyr mwy o faint.

# 8. Y camau nesaf a'r Strategaeth Bwyd Cymunedol

*Gwerth map systemau'r CFS*

8.1 Mewn sawl ffordd, mae'r map systemau bwyd cymunedol wedi creu sylfaen gref ar gyfer amlygu'r materion sy'n ymwneud â bwyd cymunedol ac ystyried bwyd cymunedol mewn ffordd fwy cyfannol.

8.2 Er bod y map cychwynnol yn cynnwys nifer fawr iawn o elfennau, roedd y rhanddeiliaid yn llawn canmoliaeth i'r ymdrech i gynnwys a chydnabod y berthynas ehangach rhwng bwyd a chymdeithas. O ran yr elfennau sy'n sail i'r map, dylid nodi felly bod lefel uchel o gywirdeb wedi cael ei chynnwys yn y broses ddatblygu wreiddiol.

8.3 Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â mater sylfaenol drwy gydol yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn sgil y cyfyngiad a osodir trwy ystyried y map fel 'adlewyrchiad cyfredol' o'n system fwyd gymunedol. O ystyried y rhwystrau niferus sy'n wynebu mentrau cymunedol rhag cyrchu a thyfu eu bwyd eu hunain, ystyriwyd bod perygl y gallai cyfyngu'r map i giplun 'cyfredol' greu senario 'siambr atsain' neu 'ddolen adborth' lle nad oes fawr yn newid.

8.4 Felly, mae'n hollbwysig bod natur gynhwysfawr y map CFS yn cyd-fynd ag uchelgais gyfrannol i gyflawni strategaeth bwyd cymunedol sy'n gwbl gynaliadwy, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran stiwardiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol, ac sy'n cydnabod yr argyfwng hinsawdd.

8.5 Mae llawer o fapiau systemau llwyddiannus yn canolbwyntio ar nod neu ddyhead trosfwaol ar gyfer newid systemig tymor hir. Mae'n bosibl bod y weledigaeth ar gyfer y CFS wedi cael ei chwtogi yn yr achos hwn, yn ddealladwy efallai - gan amgylchiadau economaidd ein hoes. Fodd bynnag, gall yr heriau hyn amlygu cyfleoedd arwyddocaol hefyd.

8.6 Mae'r rhanddeiliaid yn gobeithio y gall yr adborth a gasglwyd trwy'r ymarfer ymgysylltu hwn ac a fanylwyd yn yr adroddiad hwn helpu i ysgogi uchelgais ar gyfer y CFS a'i sbarduno ymlaen.

*Defnyddio'r adborth hwn i lywio'r CFS*

8.7 Mae ystyriaeth lawn o'r materion a godwyd gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad hwn wedi amlygu datgysylltiad canfyddedig yng nghyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar fwyd cymunedol hyd yma.

8.8 Er y canfyddir yn eang bod y weledigaeth bwyd a diod bresennol ar gyfer Cymru[29] yn canolbwyntio ar gynyddu trosiant a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), *ystyrir* bod meysydd eraill o'r llywodraeth yn ymateb yn gyflymach i'r argyfwng hinsawdd datganedig, datblygu'r economi sylfaenol a mynd i'r afael ag argyfwng iechyd sy'n dod i'r amlwg a ysgogir yn rhannol gan ddeiet gwael ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i ganfyddiad hanesyddol (er nad un cywir o reidrwydd) bod bwyd a diod yn un cam i ffwrdd oddi wrth faterion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach – gan ddangos perthnasedd cliriach i hybu canfyddiadau o fwyd Cymru at ddibenion masnach, cryfhau economïau lleol, a meithrin twristiaeth fwyd.

8.9 Fodd bynnag, dangosodd yr ymarfer a gynhaliwyd ei bod yn amlwg bellach bod bwyd a diod yn cael ei ystyried fwyfwy fel baner eang y gellir uno ystod o uchelgeisiau polisi oddi tani. Yng nghyd-destun yr hyn y mae llawer o randdeiliaid yn ei ystyried yn argyfwng diogeledd bwyd presennol y boblogaeth, ac argyfwng diogeledd bwyd cenedlaethol yn y dyfodol, mae bwyd a diod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r newid diwylliannol sy'n ofynnol i roi'r strategaeth ar waith.

8.10 Drwy gydol ein gweithdai, heriodd rhanddeiliaid y pwyslais economaidd yn strwythur presennol y map systemau droeon. Er y cydnabyddir mai dyma'r grym trechaf yn y sector bwyd yng Nghymru, teimlwyd nad yw ei ganlyniadau ehangach (a allai fod yn anfwriadol) yn cael eu llwyr gydnabod yn nyluniad y map cyfredol.

---

[29] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/gweledigaeth-diwydiant-bwyd-diod-2021_0.pdf

8.11 Mae'r map cyfredol yn amlygu dwy risg benodol a allai, os nad eir i'r afael â nhw, arwain at golli ymgysylltiad a chefnogaeth i ddatblygu'r strategaeth bwyd cymunedol ymhellach. Y rhain yw, yn bennaf:

- Yr angen i ymyrryd mewn *cyflenwi* bwyd cymunedol, trwy gynnydd angenrheidiol mewn cynhyrchu garddwriaethol i sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gynnyrch ffres (gan leddfu'r ddibyniaeth ar fwyd dros ben)
- Gofyniad i leoli bwyd cymunedol yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd, er mwyn osgoi colli cefnogaeth yn helaeth – ac i sicrhau pellter oddi wrth strategaeth fwyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a feirniadwyd yn llym

8.12 Gyda hyn mewn golwg, ystyrir bod y model 'cyflenwad a galw' amgen o'r map yn cynnig potensial, trwy feithrin dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall y dulliau posibl sydd ar gael o 'gyflenwi' bwyd cymunedol gael eu cyfateb i ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol.

8.13 Yn yr ystyr fwyaf amlwg, dylai'r map cyflenwad a galw ddangos i lunwyr polisïau er bod cynhyrchu bwyd màs-ddiwydiannol yn cynnig graddfa ac ystod o ddewis i ddefnyddwyr, mae angen mynd i'r afael â gwreiddiau ei ganlyniadau tymor hir (hyrwyddo tueddiadau deiet nad ydynt yn iach a niweidio cynhyrchedd tir). Nid yw camau gweithredu tymor byr, fel rhoi pwysau ar archfarchnadoedd i ehangu eu dewisiadau rhatach a gyrru prisiau cynhyrchion dethol i lawr, yn ddigon i fynd i'r afael â methiannau systemig, ac mae tystiolaeth gan randdeiliaid sy'n ymwneud â darparu bwyd cymunedol, yn ogystal â ffynonellau dibynadwy fel y Sefydliad Bwyd, wedi dangos hyn yn glir.

8.14 Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd, deuwn i'r casgliad mai'r unig ffordd resymegol o gefnogi darparu bwyd ffres a fforddiadwy, sy'n gwarantu milltiroedd bwyd isel, yw cefnogi cymunedau sydd eisiau cynhyrchu bwyd eu hunain.

8.15 Felly, pwysleisiwn bwysigrwydd ymagwedd drawslywodraethol i arwain y broses o ddatblygu'r CFS ymhellach. Mae gweithgareddau a gynhaliwyd yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid hwn wedi

dangos y brwdfrydedd a'r uchelgais cyffredinol i gefnogi bwyd cymunedol ledled Cymru, ar yr un pryd â chyfeirio at ddatrysiadau pragmatig. Mae'r rhain wedi canolbwyntio'n bennaf ar oresgyn rhwystrau sylfaenol, rhad rhag cynhyrchu bwyd ffres, fel mynediad at dir.

8.16 Gallai ymagwedd o'r fath helpu i sicrhau bod natur gyfannol bwyd cymunedol yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol mewn trafodaethau, a bod adnoddau'n cael eu cyfrannu o bob rhan o'r llywodraeth i gefnogi'r agenda bwysig hon.

8.17 I ategu hyn, anogwn Lywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt strategol i gydlynu cymorth cyllidol ar gyfer bwyd cymunedol, gan fabwysiadu ymagwedd unedig sy'n cydnabod yr arbedion sy'n bosibl yn y tymor hir. Dylai fod yn galonogol gwybod bod disgwyliadau rhanddeiliaid ynglŷn â'r CFS yn bragmatig ac yn realistig (fel yr amlinellir yn adrannau 4 a 7), gan gydnabod bod cyllid cyhoeddus yng Nghymru yn gyfyngedig yn y pen draw. Fodd bynnag, o fewn y cyfyngiadau hynny, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i rannu enghreifftiau o fodelau masnachol hyfyw o dyddynnod garddwriaethol, sy'n gallu cyflawni'r buddion economaidd a chymdeithasol yr ystyrir eu bod yn flaenoriaethau o'r CFS.

8.18 Trafodwyd y cyfoeth cynyddol o dystiolaeth i gefnogi effeithiolrwydd buddsoddi mewn *atal* yn helaeth gan randdeiliaid ac, yn ei dro, perygl anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu a fydd yn parhau i fod yn faich ar ein gwasanaethau cyhoeddus mewn un ffordd neu'i gilydd wrth symud ymlaen. Am y rheswm hwn, awgrymir y dylai'r cyfrifoldebau ar gyfer cyllido a chydlynu'r CFS gael eu hysgwyddo y tu hwnt i'r is-adran Bwyd a Diod, er bod gan Fwyd a Diod rôl annatod i'w chwarae wrth gryfhau cyflenwad a hyfywedd masnachol bwyd lleol.

8.19 Ar hyn o bryd, mae llawer o'r cynnydd o ran ehangu bwyd cymunedol yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol, sy'n gweithredu'n annibynnol gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd ein sylw at hyn gan y cyfeiriadau mynych at enghreifftiau 'arloesol' o awdurdodau


lleol yr ystyrir eu bod yn sbarduno’r agenda bwyd cymunedol ymlaen, a ganmolwyd am eu hymrwymiad annibynnol i weithredu.

8.20 Fodd bynnag, mae’n rhaid i’r tîm ymchwil dynnu sylw at y ffaith bod y gweithgarwch hwn yn cael ei gydnabod yn nodedig yn rhai o’n siroedd mwyaf cefnog. Os yw’r ardaloedd hyn eisoes sawl cam ar y blaen, mae’n rhaid i ni ystyried y perygl, heb gamau gweithredu pendant gan y CFS ar lefel genedlaethol, y gallai anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol presennol ledled Cymru waethygu trwy’r gwahaniaeth mewn mynediad at fwyd ffres.


8.21 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle bellach i gipio’r agenda bwyd cymunedol trwy ddangos arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol a chydlynol, sydd wedi gwrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid sy’n cyfrannu at astudiaethau fel yr un hon. Nid oes angen i hyn fod yn ddwys o ran adnoddau, ond trwy gymryd camau galluogi ar draws y Llywodraeth ac ymgysylltu â phartneriaid fel Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, gellid mynd i’r afael â rhai o’r rhwystrau presennol rhag creu sector bwyd cymunedol ffyniannus.

## Atodiad A

Mae’r delweddau isod yn rhoi cipolwg ar y gweithdai rhithwir a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid, a’r adborth a gasglwyd gan ddefnyddio’r platfform Miro:





**Ffigur 1: diffiniadau o fwyd cymunedol**



## Ffigur 2: adborth cychwynnol ar y map




## Ffigur 3: profi cywirdeb




**Ffigur 4: archwilio rhwystrau a galluogwyr gyda gwirfoddolwyr Bwyd Cymunedol**

**Atodiad (FareShare)**

Roedd y rhanddeiliaid bwyd cymunedol sy'n ymwneud â'r astudiaeth hon mewn sefyllfa dda i roi sylwadau ar weithgareddau banciau bwyd, 'hybiau' bwyd cymunedol, 'pantris', a chlybiau bwyd fforddiadwy. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli nad yw hyn yn adlewyrchu ystod llawn y ddarpariaeth bwyd cymunedol yng Nghymru.

I'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, mae profiadau'n ymwneud â darparu bwyd trwy ddyrannu parseli bwyd, lle mae'r gymhareb o eitemau cadw, hir oes ac wedi'u prosesu yn aml yn anghytbwys o'i gymharu â faint o gynnyrch ffres a dderbynnir. Mae goblygiadau hyn (fel yr adlewyrchir yn yr adroddiad) yn dod yn destun pryder allweddol po fwyaf y caiff aelwydydd eu gorfodi i ddibynnu ar yr hyn a ddylai fod wedi bod yn gefnogaeth tymor byr i atal pobl rhag mynd i argyfwng.

Mae elusennau, fel Fareshare, yn chwarae rhan ganolog wrth ail-ddosbarthu cynnyrch ffres dros ben ar draws y system bwyd cymunedol, gan gyflenwi dros 200 o sefydliadau. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys hosteli y digartref, llochesi menywod, caffis cymunedol, clybiau cinio a mwy.

Bydd pob sefydliad y mae Fareshare yn gweithio gyda hwy yn derbyn cynnyrch ffres, sy'n arbennig o fanteisiol i sefydliadau a chlybiau cymunedol sy'n gallu darparu prydau wedi'u coginio. Mae'r gweithgarwch hwn yn sicrhau bod gan gymunedau fynediad at brydau sy'n gytbwys o ran maeth, tra hefyd yn lleihau y baich posibl ar adnoddau unigolion (e.e. arbed tanwydd ar eu haelwydydd) Ni chafodd gweithgareddau grwpiau o'r fath eu cynrychioli cymaint yn yr ymarfer ymgysylltu hwn.

Er mai llysiau oedd y cynnyrch a ailddosbarthwyd fwyaf gan Fareshare yn 2023, mae rhanddeiliaid bwyd cymunedol yn nodi'n gyson bod mynediad fforddiadwy at gynnyrch ffres yn broblem i'w cymunedau.

Mae'r sylwadau hyn yn deillio'n aml o'r cyfyngiadau lle o fewn y gymuned - sydd heb gyfleusterau i storio cynnyrch ffres ar raddfa fawr. O ystyried pwysigrwydd cael bwyd am ddim a gyda chymhorthdal i bara ar aelwydydd sy'n profi tlodi bwyd, mae rhai dosbarthwyr bwyd cymunedol hefyd yn nodi 'anymarferoldeb' derbyn cynnyrch ffres dros ben - a allai fod mewn cyflwr da, ond sy'n agosach at ddiwedd ei oes o ganlyniad i gael ei ailddosbarthu.

Mae cyfleoedd pellach ar draws y sector bwyd cymunedol i gefnogi diet cytbwys drwy gynnig mwy o gynnyrch bwyd ffres drwy ailddosbarthu cynnyrch dros ben. I allugoi hyn ar raddfa fawr fodd bynnag, bydd angen i ddarparwyr bwyd cymunedol hefyd gael eu cefnogi i addasu eu cyfleusterau i storio cynnyrch ffres ar gyfer hynny.